**Rhif: WG31891**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus

Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig.

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mehefin 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Hydref 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno cynigion yn ymwneud â diwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru a sut y dylid goruchwylio a chydgysylltu gwariant ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru. Y cynnig allweddol yw sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar gyfer Cymru, gan nodi manylion y swyddogaethau y gall fod yn gyfrifol amdanynt a'r dewisiadau ar gyfer rheoli ei berthynas â darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. |
| **Sut i ymateb** | Defnyddiwch yr holiadur yng nghefn y ddogfen i ymateb i'r ymgynghoriad. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddwn yn dadansoddi ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Defnyddir y rhain i lywio ymgynghoriad manylach a mwy technegol a fydd yn darparu disgrifiad mwy cynhwysfawr o ffurf a gwaith y Comisiwn. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth: Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol<br><br>Cyfeiriad e-ost: DiwygioPCET@cymru.gsi.gov.uk |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn |

ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

Mae'n amser cyffrous i'r byd addysg yng Nghymru. Rydym yn cyflwyno cwricwlwm newydd a fydd yn gweddnewid y maes, yn diwygio hyfforddiant athrawon a safonau proffesiynol, ac yn cyflwyno'r system cymorth i fyfyrwyr fwyaf blaengar a chyfartal yn y DU.

Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau addysg yn genhadaeth genedlaethol i leihau'r bwlch cyrhaeddiad a chodi safonau i bawb. Mae addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn hanfodol i wella bywydau a llesiant ac yn hollbwysig i ffyniant unigol a chenedlaethol.

Rwy'n benderfynol o hyrwyddo a chynyddu llwybrau academaidd a galwedigaethol tuag at a thrwy addysg bellach ac addysg uwch, gan sicrhau ein bod yn ehangu mynediad er budd dysgwyr gydol eu hoes.

Rydym yn cyflwyno ein diwygiadau mewn cyd-destun heriol, yn enwedig oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, a'r modd y mae ein bywydau economaidd a bywydau gwaith wedi cael eu trawsnewid yn dechnolegol.

Mae'n bwysicach nag erioed i ni gysylltu ymchwil ac arloesi yn ein prifysgolion, cwmnïau a gwasanaethau cyhoeddus â datblygu addysg a sgiliau yn y sefydliadau hyn ac yn ein colegau a'n darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pob un o'n sefydliadau addysg ac ymchwil yn gwneud cyfraniad yn lleol a'u bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ryngwladol a'u bod yn weithgar ar y lefel honno. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i ni gydweithio i greu system lle mae sefydliadau o bob math yn cael eu hannog i gydweithio er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, gan hwyluso cynnydd a datblygu cysylltiadau cryf â busnesau i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.

Bydd corff newydd yn ganolog i'r dull gweithredu hwn, sef 'Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru', sy'n manteisio ar fodelau o arferion gorau mewn rhannau eraill o'r byd.

Yn y Llywodraeth, rwyf wedi herio ein sefydliadau academaidd i ailddarganfod ymdeimlad o genhadaeth ddinesig. Mae'n hanfodol bwysig eu bod yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a'r campws i weithio gyda'u cymunedau lleol – gan hyrwyddo gwybodaeth, dysgu a sgiliau ledled y gymdeithas. Nhw yw stiwardiaid ein cymunedau, ein dinasoedd a'n gwlad.

Er mwyn cefnogi'r gweithgarwch hwn a chryfhau'r berthynas rhwng dinasyddion, cymunedau, ymchwilwyr a darparwyr, rydym yn cydnabod bod angen i'r fframwaith ar gyfer ein system addysg ôl-orfodol fod yn fwy eglur. Mae'n rhaid hyrwyddo ymdeimlad o bwrpas a sicrhau dewisiadau a deilliannau o ansawdd uchel ar gyfer ein dinasyddion.

Rwy'n ymwybodol o gymhlethdod cynyddol y system a'r sefyllfa bresennol. Mae systemau rheoleiddio a chyllido yn amrywio ac yn ymwahanu, hyd yn oed wrth i'r ffiniau rhwng sectorau a sefydliadau ddymchwel. Bydd newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU yn cael effaith ar Gymru hefyd, ac mae angen i ni sicrhau bod ein system yn addas i'r diben a'i bod o fudd i ddysgwyr o bob oedran, i gyflogwyr ac i gymunedau.

Mor bell yn ôl â'r 1880au, roedd yr addysgwr a'r arloeswr Elizabeth Phillips Hughes yn hyrwyddo agwedd Gymreig at lunio darpariaeth ar gyfer ein dinasyddion - *"education must be national, and must be in our own hands".*

Mae’r ymgynghoriad hwn yn cynnig dull o ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sy’n unigryw i Gymru er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddysgu ac ennill sgiliau gydol eu gyrfaoedd.

Mae technoleg yn newid ein bywydau a’n heconomi yn sylweddol. Mae’r wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen mewn gweithle sydd wedi’i weddnewid yn golygu ‘diwedd ar y cymedrol’. Nid yw peidio â gweithredu o gwbl, neu gadw at y sefyllfa bresennol, yn ddewis ymarferol.

Rwy’n annog pawb sydd â diddordeb mewn datblygu sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sy’n ymateb i heriau a chyfleoedd y dyfodol – boed yn fusnesau, yn ddysgwyr neu’n ddarparwyr – i ymateb i’r ymgynghoriad hwn.



**Kirsty Williams AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

**CYFLWYNIAD**

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae Cymru yn wynebu heriau sylweddol. Mae llwyddiant economi Cymru yn hanfodol i ddyfodol pob un ohonom; mae canlyniadau iechyd cadarnhaol, sicrhau bod ein pobl yn meddu ar yr uchelgais, yr hyder a'r addysg i lwyddo, a meithrin ymdeimlad cenedlaethol o undod a phwrpas yn dibynnu ar sicrhau canlyniadau economaidd sy'n helpu ein pobl, ein busnesau a'n lleoedd i deimlo'n llwyddiannus, yn ddiogel ac yn hyderus am y dyfodol.

Ein huchelgais yw ceisio sicrhau twf sydd â phwrpas. Rydym yn gwerthfawrogi ffyniant oherwydd y diogelwch a'r llesiant y mae'n gallu helpu i'w sicrhau, ac rydym yn awyddus i ddatblygu'r economi, lleihau anghydraddoldebau incwm a lledaenu cyfleoedd. Er mwyn cefnogi darpariaeth genedlaethol, rydym yn awyddus i gynnwys dimensiwn rhanbarthol newydd yn ein hagwedd at yr economi a busnes, ochr yn ochr â dull gweithredu mwy effeithiol ym mhob sector allweddol. Bydd hyn yn helpu Cymru gyfan i fanteisio ar ffyniant a bod yn lleoedd deniadol lle mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi.

Rydym yn awyddus i wella ein cynhyrchiant fel yr allwedd i ddatgloi ein potensial ar gyfer twf a chynyddu enillion y rhai sydd ar incwm isel. Wrth ganolbwyntio ar gynhyrchiant fel rhan o ddull cytbwys o ddatblygu ein heconomi, sicrhau swyddi da a chreu cyfleoedd i bawb, rydym yn sylweddoli bod sgiliau, arloesi a seilwaith yn hanfodol i ysgogi cynhyrchiant.

Mae'n amhosibl gwadu'r cysylltiad rhwng sgiliau a chynhyrchiant. Mae mynd i'r afael â her cynhyrchiant yn allweddol i ddatgloi ein potensial ar gyfer twf Gwerth Ychwanegol Gros, ac ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd sgiliau fel ysgogydd cynhyrchiant allweddol. Ni ellir gwireddu potensial elfennau eraill sy'n ysgogi cynhyrchiant – fel seilwaith, arloesi, mentergarwch a chystadleuaeth – heb lafurlu o ansawdd uchel. Mae sgiliau yn galluogi gweithwyr i fanteisio ar seilwaith ac arloesi, bod yn fwy mentrus a datblygu cynnig mwy cystadleuol.

Bydd darparwyr addysg ôl-orfodol yn allweddol i sut mae dysgwyr a chwmnïau, dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus yn gallu ymateb i'r pwysau hyn. Y sefydliadau addysgol hyn, boed yn ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n darparu prentisiaethau, colegau addysg bellach sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau Safon Uwch, neu brifysgolion sy'n darparu cyrsiau gradd a diplomau israddedig ac ôl-radd, yw'r prif fodd i unigolion a chymunedau ennill, cadw a datblygu sgiliau a dealltwriaeth, a dulliau newydd o feddwl a gweithredu.

Mae'r sefydliadau hyn yn codi ac yn gwireddu dyheadau ar gyfer gwelliant personol a chyfunol. Hefyd, maent yn sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau buddiol â sefydliadau addysgol a masnachol eraill yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill ledled y byd. Maent yn safleoedd pwysig ar gyfer creu a chanfod gwybodaeth newydd ac ar gyfer casglu, cyfuno a lledaenu ymchwil ac arloesi. Hefyd, gallant ddod yn fodd pwysicach o ledaenu dealltwriaeth o'r datblygiadau hyn a'u cyfraniad at fudd cymdeithasol a/neu fasnachol.

Ar hyn o bryd, mae lefelau cynhyrchiant Cymru yn is na lefelau cynhyrchiant unrhyw un o ranbarthau neu wledydd eraill y DU. Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio – mae traean o weithwyr cyflogedig Cymru yn 50 oed neu'n hŷn[1]. Rhagwelir y bydd cyflogaeth yn tyfu 3.8 y cant rhwng 2014 a 2024, sy'n gyfwerth â chynnydd mewn cyflogaeth o 1.412 miliwn i 1.466 miliwn. Golyga hyn y bydd tua 54,000 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth yn 2024 o'i gymharu â

[1] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, blwyddyn yn dod i ben Rhagfyr 2016.

2014. O gymryd i ystyriaeth y galw i olynu gweithwyr, rhagwelir y bydd angen 607,000 o weithwyr ar economi Cymru rhwng 2014 a 2024[2].

Rydym wedi gweld cynnydd mewn lefelau swyddi gwag ymysg cyflogwyr, sy'n dangos galw uwch am lafur[3]. Roedd cyflogwyr yn credu bod bron i chwarter y swyddi gwag yn anodd ei llenwi oherwydd prinder sgiliau (h.y. diffyg sgiliau, profiad a/neu gymwysterau ymysg ymgeiswyr), sy'n fwy na'r lefel yn 2011. Mae'r dwysedd[4] o ran swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau wedi cynyddu ym meysydd adeiladu, trafnidiaeth a chyfathrebu. I'r lleiafrif o gyflogwyr a oedd â swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau (6 y cant o gyflogwyr), y sgiliau anoddaf i ddod o hyd iddynt oedd sgiliau neu wybodaeth arbenigol, y gallu i reoli amser a blaenoriaethu tasgau personol, sgiliau trin cwsmeriaid, gweithio mewn tîm, a datrys problemau cymhleth. Yn y cyfamser, mae mewnfuddsoddwyr a sefydliadau eraill sy'n ystyried cynyddu nifer y swyddi yng Nghymru yn nodi'n gyson bod argaeledd pobl â sgiliau lefel uchel perthnasol yn ystyriaeth allweddol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau wedi tyfu'n gyflymach yng Nghymru nag yn unrhyw un o wledydd eraill y DU, gan gynyddu o £1.6 biliwn yn 2011 i £2.1biliwn yn 2015. Hefyd, mae cyfran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant wedi cynyddu o 56 y cant yn 2011 i 64 y cant yn 2015 (er bod cynnydd tebyg wedi bod yn y DU). Fodd bynnag, mae cyflogwyr wedi bod yn llai parod i ddefnyddio colegau Addysg Bellach a sefydliadau Addysg Uwch i ddiwallu eu hanghenion o ran hyfforddiant o'i gymharu â darparwyr masnachol[5]. Yn ôl adroddiadau diweddar gan y CBI, mae cyfran y busnesau nad ydynt yn hyderus y bydd digon o bobl ar gael yn y dyfodol â'r sgiliau perthnasol i lenwi eu swyddi sgiliau uchel wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed (69 y cant). Mae'r pryderon hyn ynglŷn â'r broblem o lenwi swyddi sgiliau uchel yn y dyfodol yn cynyddu, ac maent yn cael eu rhannu gan fusnesau ledled y DU. Yng Nghymru, ac yng ngwledydd eraill y DU, mae'r bwlch rhwng cyflogwyr sy'n hyderus y byddant yn gallu llenwi swyddi sgiliau uchel yn y dyfodol, a'r rhai nad ydynt yn hyderus, wedi cynyddu rhwng 2013 a 2016[6].

Gan ragweld y byddai'r pryderon hyn yn dod i'r amlwg ochr yn ochr ag adfywiad cryf yr economi yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Symud Cymru Ymlaen" yn 2016 yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu isafswm o 100,000 o brentisiaethau o ansawdd ar gyfer pob oed. Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddwyd ein polisi a'n cynllun gweithredu ar gyfer prentisiaethau[7] sy'n rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau lefel uwch drwy ganolbwyntio ar brentisiaethau lefel 4 ac uwch, lle mae deilliannau'n tueddu i fod yn well, a mynd i'r afael â phrinder sgiliau drwy ddatblygu prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau twf a sectorau sy'n dod i'r amlwg. Mae prentisiaethau yng Nghymru yn cefnogi gweithwyr cyflogedig newydd a phresennol, ac mae 13 y cant o gyflogwyr yn cynnig prentisiaethau ffurfiol[8].

---

[2] Working Futures 2014-24 (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau). Mae Atodiad A yn cynnwys data o "Working Futures" ar ragolygon a thueddiadau yn ymwneud â lefelau cymwysterau, cyflogaeth a sgiliau yng Nghymru hyd at 2024. Fel sy'n wir am bob rhagamcan a rhagolwg, dylid ystyried canlyniadau 'Working Futures' fel rhai sy'n awgrymu tueddiadau a graddfeydd tebygol ar sail patrymau ymddygiad a pherfformiad blaenorol, yn hytrach na fel rhagolygon manwl ar gyfer y dyfodol. Tra bod 'Working Futures' yn cyfeirio at y ffigurau fel 'cyflogaeth', dylid nodi mai data Workforce Jobs yw'r brif ffynhonnell wrth lunio rhagamcanion. Mae'r data hwn yn mesur swyddi yn hytrach na phersonau sydd mewn cyflogaeth, felly bydd ffigurau 2014 yn fwy nag amcangyfrifon cyflogaeth Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2014, gan y gall rhai unigolion fod â mwy nag un swydd.

[3] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr y DU 2015 (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau).

[4] Dwysedd o ran swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau yw nifer y swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau fel cyfran o'r holl swyddi.

[5] Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr 2014 (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau).

[6] Arolwg Addysg a Sgiliau CBI/Pearson (2016)

[7] Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru: http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?skip=1&lang=cy

[8] Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr 2014 (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau)

Mae lefel gyffredinol cymwysterau'r gweithlu yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf[9]. Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer yr israddedigion llawn amser ym mhrifysgolion Cymru wedi cynyddu, tra bod nifer yr israddedigion a'r ôl-raddedigion rhan-amser a dysgwyr sy'n oedolion mewn colegau addysg bellach a lleoliadau dysgu cymunedol, wedi lleihau. Yn ogystal â'r newid yn y niferoedd, mae'r pynciau sy'n cael eu hastudio gan ddysgwyr a'r galwedigaethau y maent yn paratoi amdanynt wedi newid hefyd. Mae'r pynciau sy'n cael eu dewis gan israddedigion llawn amser yn y DU a Chymru wedi newid, gyda rhai gwahaniaethau yn y tueddiadau cyffredinol. Mae tua 40 y cant o israddedigion llawn amser o Gymru yn dewis astudio mewn llefydd eraill yn y DU, ac mae llawer ohonynt yn dychwelyd i Gymru ar ôl graddio.

Ymysg y newidiadau i'r pynciau sy'n cael eu hastudio ar lefel y DU y mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n astudio'r gwyddorau biolegol, astudiaethau busnes, peirianneg, mathemateg a'r celfyddydau a dylunio creadigol, a gostyngiad yn nifer y rhai sy'n astudio adeiladu ac adeiladwaith, cyfrifiadureg, ieithoedd tramor, addysg a phynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, mae llai o bobl yng Nghymru wedi dewis astudio astudiaethau busnes, a'r celfyddydau a dylunio creadigol. Serch hynny, mae'r niferoedd sy'n astudio peirianneg, mathemateg a chyfrifiadureg yng Nghymru wedi bod yn gymharol sefydlog. Roedd yr un peth yn wir am bynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth, ond cafwyd cynnydd mwy sylweddol yn 2015/16. Yn aml, mae gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn amlwg mewn galwedigaethau a diwydiannau lle mae disgwyl galw cynyddol am staff yn y dyfodol[10].

Mae yna dystiolaeth nad yw sgiliau rhai gweithwyr cyflogedig yn cael eu defnyddio yn y gweithle. Yn gyffredinol, mae 34 y cant o sefydliadau yng Nghymru yn tanddefnyddio sgiliau a chymwysterau[11]. Roedd cyfran lai o gyflogwyr bach (2-4 o staff) yn tanddefnyddio sgiliau staff o'i gymharu â chyflogwyr mawr (5 o aelodau staff neu fwy), ond roedd tanddefnyddio sgiliau staff yn effeithio ar gyfran uwch o staff sy'n gweithio i gyflogwyr bach. Hefyd, nododd dros hanner y cyflogwyr fod diffyg sgiliau arwain a rheoli ymysg staff ac ymgeiswyr[12], er bod y sgiliau hyn yn gallu ysgogi cynhyrchiant a defnydd gwell o sgiliau.

Rydym yn gwybod hefyd bod rhwydweithiau cyflogwyr yn bwysig ar gyfer arloesi, rhannu gwybodaeth a thwf. Serch hynny, dim ond 16 y cant o gyflogwyr yng Nghymru a oedd wedi gweithio gyda chyflogwyr eraill i ddefnyddio, datblygu neu rannu arbenigedd ym maes sgiliau a hyfforddiant[13]. Mae lefelau arloesi[14] a buddsoddi mewn ymchwil a datblygu[15] yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, cyfartaledd yr UE a tharged y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sy'n anffodus gan fod cyhoeddiadau ymchwilwyr o Gymru yn cael eu dyfynnu'n aml ac mae tystiolaeth bod eu cyrhaeddiad rhyngwladol yn cynyddu yn y cyswllt hwn[16].

---

[9] Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio (2017) Llywodraeth Cymru
[10] Working Futures 2014-24 (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau)
[11] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015 (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau).
[12] Mae hyn yn cyfeirio at gyfran y cyflogwyr sydd â swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau a / neu fylchau sgiliau sy'n nodi mai diffyg sgiliau rheoli ac arwain yw'r achos. Mae swyddi gwag sy'n deillio o brinder sgiliau yn effeithio ar 6 y cant o gyflogwyr yn unig ac mae bylchau sgiliau yn effeithio ar 14 y cant.
[13] Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr 2014 (Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau).
[14] Improving the Economic Performance of Wales: Existing Evidence and Evidence Needs (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2016).
[15] Measured via research intensity as a percentage of GDP, taken from The Case for Growing STEMM Research Capacity in Wales (Halligan, P., a Bright, L., 2015).
[16] International Comparative Performance of the Welsh Research Base 2010-2014, diweddariad 2016 (Elsevier, 2016).

Roedd perfformiad prifysgolion Cymru yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 yn well o lawer nag yn Ymarferiad Asesu Ymchwil 2008, gyda thros dri chwarter yr ymchwil a gyflwynwyd yn cael ei hasesu'n ymchwil o ragoriaeth ryngwladol (3*), a bron i draean yn cael ei dynodi'n ymchwil 'gyda'r gorau yn y byd' (4*) 17(1). Roedd perfformiad Cymru yn gryf mewn amrywiaeth o bynciau, a nodwyd cyflawniadau o'r radd flaenaf ym meysydd fel: Seicoleg/Niwrowyddoniaeth, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Peirianneg Gyffredinol, Daearyddiaeth/Astudiaethau Amgylcheddol/Archaeoleg, Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff /Hamdden a Thwristiaeth, a Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg.

Yn 2015, cyhoeddodd y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch (LFHE) adroddiad gan Halligan a Bright a oedd yn cynnwys adolygiad ac eglurhad cynhwysfawr o incwm Cymru o'r cyngor ymchwil a oedd yn llai cystadleuol yn gyffredinol[18]. Dangosodd yr adroddiad mai maint annigonol y sylfaen wyddoniaeth a nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes STEMM oedd y brif broblem, yn hytrach nag ansawdd yr ymchwil.

Mae gwaith ymchwil mwy diweddar gan Kings College yn ymwneud ag effaith ymchwil prifysgolion Cymru ar fusnes a chymdeithas ledled y DU wedi canfod bod yr astudiaethau achos effaith a gyflwynwyd fel rhan o'r broses REF wedi dangos proffil hynod unigryw. Roedd mwy o effeithiau'n deillio o waith ymchwil yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a'r Gwyddorau Cymdeithasol, nag o Wyddorau Bywyd a'r Gwyddorau Peirianegol a Ffisegol[19].

Dros y degawd diwethaf, mae ymchwilwyr ym mhrifysgolion Cymru wedi dangos twf cadarn mewn sawl maes ymchwil, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, y gwyddorau amgylcheddol, y gwyddorau cymdeithasol a biowyddorau[20]. Un o nodweddion allweddol strategaeth ddiwydiannol ddiweddar y DU a'r polisi ymchwil ac arloesi, sydd wedi'u llywio gan adroddiadau dylanwadol[21], ac Archwiliadau Gwyddoniaeth ac Arloesi[22] fu'r cynnydd ym muddsoddiad y llywodraeth mewn ymchwil ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg sy'n gysylltiedig â chryfderau diwydiannol lleol allweddol a datblygu busnes yn y dyfodol ar lefel fyd-eang o bosibl[23]. Byddai rhagor o fuddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi yng Nghymru yn helpu i gryfhau a chynyddu'r lefel bresennol o weithgarwch o ansawdd uchel, a gallai helpu i gynyddu cryfderau economaidd ym meysydd lled-ddargludyddion cyfansawdd, awyrofod, uwch weithgynhyrchu a deunyddiau, dur, ynni, biowyddorau, gwyddor data a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

Mae Adolygiad Reid o Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru yn archwilio'r broses o ariannu a threfnu ymchwil yn fanylach, a bydd yn cyhoeddi ei ganlyniadau a'i argymhellion cysylltiedig ym mis Rhagfyr 2017. Bwriedir i'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwn ategu'r newidiadau a gyflwynir yn sgil yr ymgynghoriad hwn.

## Heriau allweddol ar gyfer y dyfodol

Mae'r tueddiadau a nodir uchod yn her ac yn gyfle i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Mae angen i ni ymateb yn gyflym er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r

---

[17] REF 2014 Y Canlyniadau (2014).
[18] The Case for Growing STEMM research capacity in Wales, Halligan, P. a Bright, L. (2015)
[19] Impacts of academic research from Welsh universities. (2017)
[20] Impacts of academic research from Welsh universities: a comprehensive review of the REF impact case studies (Hewlett, K. a Hinrichs-Krapels, 2017).
[21] The Dowling Review of Business-University Research Collaborations
[22] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/565261/science-innovation-audits-wave-1-summary-report.pdf
[23] https://www.gov.uk/government/news/business-secretary-announces-industrial-strategy-investment-in-science-research-and-innovation

newid i greu Cymru fwy medrus. Mae angen rhagor o gydweithio ar draws ein sefydliadau, ar y cyd â chyflogwyr, er mwyn ymateb i'r galw rhanbarthol am gyflogaeth a sgiliau. Mae'n rhaid i ni nodi a diwallu anghenion gweithlu sy'n heneiddio, y galw am sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) ac ardaloedd sy'n cynnwys unigolion â sgiliau isel.

Er mwyn ymateb i'r sgiliau cymhleth sydd eu hangen gan gyflogwyr, mae'n rhaid i ni ehangu cyfleoedd profiad gwaith a defnyddio ysgolion, colegau a phrifysgolion yn well o lawer fel cyfryngau recriwtio ar gyfer cyflogwyr.

Mae'n rhaid i ni gynyddu galw cyflogwyr am hyfforddiant ar adeg pan fo adnoddau yn brin. Mae'r ateb i'r her honno yn deillio'n rhannol o sicrhau bod darpariaeth AB ac AU yn gallu cystadlu, a'i bod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr. Hefyd, mae angen i ni sicrhau bod buddsoddi ar y cyd mewn hyfforddiant yn rhan o'r berthynas rhwng llywodraeth, darparwyr a chyflogwyr.

Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal a gwella ansawdd ein rhaglen brentisiaeth fel bod addysg alwedigaethol yn cael yr un parch â llwybrau mwy traddodiadol i addysg uwch.

Mae angen cymorth ar gyflogwyr i ddatblygu eu harferion busnes er mwyn defnyddio sgiliau sy'n cael eu tanddefnyddio yn fwy effeithiol, gan ganolbwyntio ar gwmnïau llai o ran maint yn benodol. Hefyd, mae angen i ni helpu i ddatblygu gallu arwain a rheoli cyflogwyr a chryfhau'r cydweithio rhwng cyflogwyr wrth ymateb i anghenion sgiliau hirdymor.

Mae swyddi cynaliadwy a bywydau gwaith gwerth chweil yn galluogi pobl Cymru i ffynnu a theimlo'n ddiogel. Mae dyfodol Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar wella cysylltiadau rhwng cymwysterau a'r farchnad lafur er mwyn cryfhau llwybrau galwedigaethol a llwybrau gyrfa o fewn ac ar draws darparwyr addysg, a rhannau gwahanol o'r farchnad lafur. Hefyd, mae angen i ni ddod o hyd i ffordd o gysylltu cyllid darparwyr â deilliannau cyflogaeth eu holl ddysgwyr, er mwyn cryfhau atebolrwydd a manteisio'n llawn ar gyllid cyhoeddus prin.

Mae angen i'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru sicrhau bod darparwyr o bob math, o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned i'r prifysgolion mwyaf llwyddiannus, yn canolbwyntio ar gefnogi ffyniant a diogelwch yn eu hardal a'u rhanbarth, drwy ddarparu addysg sy'n hyrwyddo cyflogaeth leol gynaliadwy a llwybrau gyrfa gwerth chweil.

Mae system addysg ôl-orfodol wirioneddol effeithiol yn diwallu anghenion dysgwyr o bob math. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gadael yr ysgol ac yn paratoi ar gyfer eu gyrfaoedd a'u bywydau fel oedolion, pobl ifanc y mae angen ail gyfle arnynt ar ôl ymddieithrio o'r byd addysg, oedolion hŷn sy'n ailhyfforddi mewn ymateb i anghenion marchnad lafur sy'n newid, a phobl o bob oed sydd am wella eu haddysg mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r system ôl-orfodol bresennol yng Nghymru yn gallu ymateb yn llawn i dueddiadau'r dyfodol a gofynion dysgwyr mwy amrywiol. Mae angen sicrhau bod y system yn gallu ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid, a bod yn fwy hyblyg ac addasadwy i anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan roi cynnig ar ddulliau newydd o ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel, a'u mabwysiadu.

Mewn araith ddiweddar â'r teitl "Nod cenedlaethol o ddiwygio addysg – busnes pawb", dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

> "Yn syml, mae ffyniant, cydlyniant a lles cenedl yn seiliedig ar system addysg gref a lwyddiannus. Dyna pam rwy'n disgrifio ein diwygiadau i godi

> safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol fel nod cenedlaethol."

Nid yw ein nod cenedlaethol yn gorffen wrth giatiau'r ysgol. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan y rheini sy'n gadael ein hysgolion yn y dyfodol lefelau cyrhaeddiad uwch, rhagor o sgiliau cyffredinol a mwy o hyder, a'u bod yn symud ymlaen i system ôl-orfodol sy'n rhoi'r un parch i lwybrau galwedigaethol ac academaidd ac sy'n sicrhau bod dysgwyr yn ennill sgiliau amrywiol o ansawdd i'w galluogi i fwynhau gyrfaoedd cynaliadwy a gwerth chweil weddill eu hoes. Bydd gweithlu o'r fath yn sicrhau bod ein heconomi yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol a bod ein pobl yn fwy ffyniannus a diogel.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Yn 2015, comisiynwyd yr Athro Ellen Hazelkorn gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r gwaith o oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn archwilio effeithiolrwydd y trefniadau presennol, gan ganolbwyntio ar gyllid, llywodraethu, sicrhau ansawdd a safonau a rheoli risg.

Cyhoeddwyd adroddiad[24] yr Athro Hazelkorn ar 10 Mawrth 2016 ac roedd yn cynnwys dau brif argymhelliad. Yr argymhelliad cyntaf oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gyda chysylltiadau cryfach rhwng polisi a darparwyr addysg / hyfforddiant a nodau cymdeithasol ac economaidd. Yr ail argymhelliad oedd y dylid sefydlu un awdurdod newydd hyd braich i reoleiddio, cydgysylltu a goruchwylio'r system ôl-orfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion yr Athro Hazelkorn. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion i gyflwyno'r diwygiadau sydd eu hangen, ac mae'n gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar rai o'r materion allweddol y bydd angen i ddeddfwriaeth fynd i'r afael â nhw.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig sefydlu awdurdod strategol newydd – *Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru (Y Comisiwn)* – i ddarparu goruchwyliaeth, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Byddai swyddogaethau allweddol y Comisiwn yn cynnwys:

- cynllunio'n strategol y ddarpariaeth addysg a sgiliau ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru;
- sefydlu dull o reoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a'r sefydliadau a'r darparwyr hyfforddiant sy'n cael eu rheoleiddio neu eu hariannu ganddo;
- ariannu, contractio, asesu ansawdd, monitro'n ariannol ac archwilio addysg uwch, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a, lle bo'n berthnasol, rhaglenni cyflogadwyedd a rhaglenni dan arweiniad cyflogwyr; a
- y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Un o swyddogaethau allweddol y Comisiwn fyddai diogelu buddiannau dysgwyr, sicrhau bod llwybrau galwedigaethol ac academaidd yn cael yr un parch, a helpu i gyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo mewn economi sy'n fwyfwy cystadleuol. Hefyd, drwy ei weithgareddau cynllunio strategol ac ariannu, byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cyfateb yn well i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, gan helpu i greu economi gryfach yn y dyfodol.

Yn ogystal, byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau a gwella ansawdd ac am reoli perfformiad a risg. Byddai'n adrodd bob blwyddyn i Weinidogion Cymru ar berfformiad y sector ôl-orfodol.

Mae sector ymchwil ac arloesi cadarn yn sylfaen i economi ffyniannus, yn hyrwyddo iechyd a gofal cymdeithasol gwell ac yn arddangos Cymru fel cenedl fodern, ffyniannus ac arloesol. Byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am gydgysylltu cyllid ar gyfer ymchwil ac ymchwil ôl-radd

[24] http://gov.wales/docs/dcells/publications/160310-hazelkorn-report-cy.pdf

mewn ffordd fwy strategol a dynamig, yn unol â strategaeth genedlaethol. Mae'r papur hwn yn cynnig y dylai deddfwriaeth yn y dyfodol ddarparu ar gyfer sefydlu pwyllgor *Ymchwil ac Arloesi Cymru* fel rhan o'r Comisiwn. Diben y pwyllgor hwn fyddai goruchwylio a chydgysylltu gwariant Llywodraeth Cymru ar ymchwil ac arloesi gyda'r nod o greu amgylchedd ymchwil, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth mwy dynamig sy'n ymateb i anghenion Cymru.

Bydd darparu mwy o gyfleoedd i unigolion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ôl-orfodol yn allweddol er mwyn sicrhau bod y sgiliau Cymraeg sy'n cael eu dysgu gan bobl ifanc yn yr ysgol yn cael eu cynnal a'u datblygu i'w defnyddio mewn swyddi yn y dyfodol.

Mae'r Papur Gwyn yn archwilio'r berthynas rhwng y Comisiwn newydd a chyrff eraill yng Nghymru a ledled y DU sy'n cyfrannu at y gwaith o oruchwylio, ariannu a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, cyflwynir tri model posibl ar gyfer y berthynas rhwng y Comisiwn a'r sefydliadau neu'r darparwyr yng Nghymru y byddai'n eu goruchwylio:

1. model *Cofrestru Darparwyr;*
2. model *Cytundeb Deilliannau; a*
3. model *Compactau Rhanbarthol.*

Yn ogystal â chynigion ar gyfer sefydlu'r Comisiwn newydd, mae'r papur hwn yn gofyn am safbwyntiau ar drefniadau llywodraethu addysg uwch yng Nghymru a sut y bydd angen eu moderneiddio o bosibl oherwydd newidiadau sylweddol i'r sector addysg uwch yng Nghymru a'r DU dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn Lloegr.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sbardun allweddol ar gyfer newid yng Nghymru. Mae'n ddeddfwriaeth bwysig ac arloesol sy'n llywio datblygiad polisïau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Diben y Ddeddf yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy – sy'n cael ei ddiffinio fel gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan ddiwallu anghenion presennol mewn ffordd nad yw'n effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Ddeddf yn annog cyrff cyhoeddus i weithio tuag at weledigaeth gyffredin drwy osod saith nod llesiant. Ein nod yw creu:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r Ddeddf yn rhagnodi pum ffordd o weithio i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith:

- Gweithredu ar sail hirdymor, gan sicrhau cydbwysedd rhwng ystyriaethau tymor byr a hirdymor.
- Atal problemau rhag codi.
- Integreiddio blaenoriaethau.
- Cydweithio i ddatrys problemau cyffredin.
- Cynnwys cwsmeriaid a sicrhau bod amrywiaeth y sylfaen gwsmeriaid yn cael ei chynnwys.

Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i weithredu yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n ofynnol iddynt fonitro, rheoli ac adrodd ar eu perfformiad yn cyflawni'r amcanion llesiant.

**ADRODDIAD HAZELKORN**

Wrth ei mesur yn erbyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r heriau economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu Cymru, mae'r system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) yn dangos gwendidau sylweddol. Mae yna dystiolaeth o ddyblygu gwaith, cymhlethdod diangen a diffyg cydgysylltu rhwng lefelau a darparwyr. O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw dysgwyr yn deall y llwybrau dysgu sydd ar gael iddynt. Mae'n bosibl hefyd nad yw'r sefydliadau gwahanol yn eu hystyried eu hunain yn rhan o un system, a'u bod yn cystadlu am ddysgwyr, yn hytrach na chanolbwyntio ar fuddiannau dysgwyr ac anghenion sgiliau cyflogwyr.

Oherwydd pryderon yn ymwneud â threfniadau goruchwylio yn y sector PCET, penderfynodd y Llywodraeth flaenorol gomisiynu Adroddiad Hazelkorn. Yn sgil y sefyllfa ariannu gynyddol heriol yng Nghymru, roedd y Llywodraeth flaenorol hefyd wedi sylwi bod angen gwella cydweithio rhwng sefydliadau ac eraill sy'n ymwneud â darparu PCET. Roedd yr adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ariannu, llywodraethu, sicrhau ansawdd a safonau, a rheoli risg.

Wrth gynnal yr adolygiad, ymgysylltodd yr Athro Hazelkorn â'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a'u cyrff cynrychioladol, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, Estyn ac ysgolion uwchradd, yn ogystal â busnesau ac undebau llafur. Cyhoeddwyd Adroddiad yr Athro Hazelkorn ar 10 Mawrth 2016. Tynnodd sylw at bryderon difrifol yn ymwneud â'r sector PCET, gan gynnwys:

- diffyg cysylltiad rhwng ac ar draws elfennau gwahanol o'r system PCET;
- diffyg sylw i ddeilliannau dysgwyr a llwybrau dysgwyr;
- diffyg cydgysylltu rhwng nodau addysg a hyfforddiant a nodau'r gymdeithas yn ehangach; a
- atebolrwydd annigonol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau hyn, bydd angen sicrhau rhagor o gydgysylltu ar draws y system, a sylweddoli bod PCET yng Nghymru yn gallu gweithredu fel un sector, gan gydweithio i ddiwallu anghenion dysgwyr ac economi Cymru. Hefyd, bydd angen ymrwymo i sicrhau'r un parch at lwybrau dysgu galwedigaethol ac academaidd, fel bod dysgwyr yn cael eu hysbrydoli a'u cynorthwyo i ddewis y llwybr sy'n briodol iddyn nhw.

Nododd yr adroddiad effaith bosibl y newidiadau i brosesau llywodraethu addysg uwch yn Lloegr ar addysg uwch yng Nghymru, yn enwedig goblygiadau dull gweithredu Llywodraeth y DU sy'n canolbwyntio mwy ar y farchnad. Yn ogystal, nododd amrywiaeth o heriau arwyddocaol sy'n wynebu PCET yng Nghymru:

- yr angen am fframwaith cenedlaethol sy'n nodi uchelgais, nodau a blaenoriaethau ar gyfer y system ôl-orfodol;
- yr angen am ragor o gydlynu ledled y system PCET, a rhwng ysgolion a PCET;
- yr angen am gysylltiad agosach rhwng PCET ac anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru yn y dyfodol;
- yr angen am lwybrau dysgu a gyrfa mwy cydlynol ar gyfer pob oedran a dawn, gan alluogi dysgwyr i symud yn haws rhwng lleoliadau addysgol gwahanol;

- yr angen i gryfhau prosesau cydweithio a datblygu màs critigol ym meysydd addysg ac ymchwil er mwyn cynyddu cydlyniant, ansawdd a chystadleurwydd; ac
- yr angen am strwythurau llywodraethu mwy priodol sydd â'r arbenigedd gofynnol i arwain, cefnogi, monitro a gwerthuso gweithredoedd PCET yn erbyn amcanion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Yn sgil canfyddiadau adroddiad Hazelkorn, mae'n amhosibl gwrthwynebu'r ddadl o blaid diwygio os yw Cymru eisiau datblygu system PCET gynaliadwy i ddiwallu anghenion dysgwyr o bob gallu, economi Cymru a chymdeithas Cymru. Mae'n gyfle i edrych ymlaen a chydweithio i greu system PCET sy'n mabwysiadu agwedd strategol, draws-sector at gyflawni'r pum maes sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt: sgiliau dadansoddi, sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, rheoli amser, ymdrin â chwsmeriaid a gweithio mewn tîm.

*Argymhellion allweddol*

Roedd adroddiad Hazelkorn yn gwneud dau brif argymhelliad. Yr argymhelliad cyntaf oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y system PCET, gyda chysylltiadau cryfach rhwng polisi a darparwyr addysg / hyfforddiant â nodau cymdeithasol ac economaidd. Dylai'r weledigaeth fod yn sylfaen i gynllun cydlynol, wedi'i gydgysylltu mewn ffordd strategol, ar gyfer y system ôl-orfodol, sy'n cynnwys addysg, hyfforddiant, ymchwil, ysgolheictod ac ymgysylltu.

Yr ail argymhelliad allweddol oedd y dylid sefydlu corff hyd braich newydd i weithredu fel awdurdod rheoleiddio, cydgysylltu a goruchwylio strategol ar gyfer y system ôl-orfodol. Byddai'n disodli CCAUC, yn llywio ac yn monitro gwelliant ledled y system gyfan ac yn gweithio gyda darparwyr a chyflogwyr PCET i ddatblygu system PCET integredig a chydlynol. Byddai'n sicrhau ansawdd, yn monitro arferion llywodraethu ac ariannol ledled y system ac yn sefydlu mecanweithiau i sicrhau llywodraethu da ac atebolrwydd ar gyfer y cyllid cyhoeddus a ddyrennir i'r sector.

Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn manteisio'n llawn ar eu hymgysylltiad â PCET, roedd yr Athro Hazelkorn yn argymell sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa clir a hyblyg. Ymysg yr argymhellion eraill a fyddai'n fanteisiol i ddysgwyr oedd cefnogi dewisiadau dysgwyr drwy wella ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i'r cyhoedd ynglŷn â llwybrau dysgu a gyrfa academaidd a galwedigaethol sefydliadau; a'r angen am gamau gweithredu ehangach i ehangu mynediad a chyfranogiad, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu anfantais.

O safbwynt deilliannau dysgwyr, roedd adroddiad Hazelkorn yn argymell bod angen canolbwyntio ar lwyddiant mwy hirdymor a chynaliadwy o ran cyflogaeth a gyrfa, yn hytrach nag ar gyflogaeth cyrchfan gyntaf. Roedd yr adroddiad yn dadlau bod angen gwella'r cysylltiadau rhwng cymwysterau a'r farchnad lafur drwy gryfhau llwybrau galwedigaethol a gyrfa oddi mewn ac ar draws darparwyr addysg a rhannau gwahanol o'r farchnad lafur. Awgrymodd yr adroddiad y byddai cysylltu cyllid â pherfformiad a deilliannau dysgu yn helpu i gryfhau atebolrwydd sefydliadol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr Athro Hazelkorn. Yn ei datganiad ar 31 Ionawr, dywedodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

*“Mae bywyd gwaith bellach yn hirach ac yn newid yn gyflym. Felly mae arnom angen system sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddysgu a meithrin sgiliau drwy gydol eu gyrfa. Mae*

*ein bywydau a'r economi'n wynebu newid technolegol anferth. Rydyn ni'n gwybod fod gofynion sgiliau ein heconomi yn newid yn barhaus ac, wrth gwrs, mae rhaid inni ymateb i effaith Brexit. Nid yw gwneud dim nac aros yn ein hunfan yn opsiynau ymarferol.”*

Mae’r Papur Gwyn hwn yn amlinellu cynigion i gyflwyno’r diwygiadau sydd eu hangen, gan wahodd safbwyntiau rhanddeiliaid ar rai o’r prif faterion y gallai fod angen mynd i’r afael â nhw mewn deddfwriaeth. Caiff yr ymatebion i’r ddogfen hon, a’r ymatebion sy’n dod i law yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu, eu defnyddio i lywio ymgynghoriad manylach a mwy technegol. Felly, mae’n hollbwysig ein bod yn derbyn sylwadau gan ddysgwyr, arweinwyr ac ymarferwyr ar sut mae’r PCET yn gallu diwallu eu hanghenion a gwneud mwy o gyfraniad at symudedd cymdeithasol a ffyniant cenedlaethol.

**Y TREFNIADAU PRESENNOL**

*Y trefniadau rheoleiddio a llywodraethu ar gyfer y sector PCET*

Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau llywodraethu a goruchwylio ledled y sector PCET yn gymhleth. Mae'r sector yn cynnwys addysg bellach (AB), addysg uwch (AU), dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg chweched dosbarth. Mae gan bob un o'r meysydd hyn ei drefniadau penodol ei hun ar gyfer rheoleiddio, llywodraethu, sicrhau ansawdd ac adolygu polisi. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio sefydliadau a darparwyr sy'n derbyn cyllid cyhoeddus i ddarparu PCET wedi datblygu dros amser ac wedi esblygu ar wahân. O ganlyniad, mae'r trefniadau gwahanol wedi'u cynnwys mewn nifer o statudau a dogfennau polisi.

Er bod sefydliadau amrywiol yn gyfrifol am oruchwylio PCET, y sefydliadau sydd â'r cyfrifoldebau allweddol yw Llywodraeth Cymru, CCAUC, Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a Chymwysterau Cymru. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol hefyd yn cyfrannu at addysg chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned. Felly, mae sefydliadau gwahanol yn ymgymryd â gweithgareddau goruchwylio amrywiol. O ganlyniad i hyn, mae trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer swyddogaethau goruchwylio, ac mae'r lefelau ymgysylltu â'r swyddogaethau hyn a'u heffeithiolrwydd yn amrywio. Yn ogystal â'r anghysondeb yn y gwaith o oruchwylio a monitro gwahanol elfennau o'r sector PCET, mae'r pwerau goruchwylio sydd ar gael i'r llywodraeth a sefydliadau eraill yn amrywio hefyd.

Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am bolisi, strategaeth a chyllid PCET, gan gynnwys noddi CCAUC. Mae'r meysydd AB a dysgu seiliedig ar waith wedi'u goruchwylio a'u cyllido gan Lywodraeth Cymru ers 2006. Mae addysg chweched dosbarth wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru ers hyn, ac mae awdurdodau lleol wedi cadw'r cyfrifoldeb statudol ar gyfer gwella ysgolion. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r polisi cyffredinol ym maes AU, CCAUC sy'n rhoi'r polisi ar waith. Mae CCAUC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'n gyfrifol am weinyddu cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi:

- addysg uwch yng Nghymru;
- ymchwil mewn prifysgolion;
- cyrsiau addysg uwch mewn SAB; a
- gwaith addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru;

Mae darpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru yn cael ei hachredu gan CCAUC ar hyn o bryd, o dan Ddeddf Addysg 2005, ond bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn derbyn cyfrifoldeb am achredu rhaglenni astudio AGA o 2019/20 ymlaen.

Ers 1 Awst 2015, CCAUC sy'n gyfrifol am agweddau penodol ar y system reoleiddio newydd ar gyfer addysg uwch, o dan bwerau a nodwyd yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015)[25]. Bydd Deddf 2015 yn dod i rym yn llawn ar 1 Medi 2017.

Mae dogfen fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC yn gosod y cyd-destun ar gyfer gwaith CCAUC, a'r telerau a'r amodau sy'n sail i'r cyllid y mae'n ei dderbyn gan Weinidogion Cymru. Hefyd, mae llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog yn pennu blaenoriaethau strategol lefel uchel CCAUC. Yn y llythyr cylch gwaith, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i CCAUC ganolbwyntio ar amcanion polisi penodol. Fodd bynnag, mae'r

[25] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/1/contents

llythyr cylch gwaith yn gynghorol ei natur, ac nid oes rheidrwydd ar CCAUC i gydymffurfio ag ef. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo CCAUC mewn amgylchiadau cyfyngedig penodedig a nodir yn Neddf 2015.

Y tu hwnt i'w rôl reoleiddio statudol, mae CCAUC yn dibynnu ar delerau ac amodau cyllido i ddylanwadu ar ymddygiad sefydliadol. Fodd bynnag, mae newidiadau i drefn gyllido AU wedi lleihau'r lefel o gyllid uniongyrchol y mae CCAUC yn gyfrifol amdano. Gan fod myfyrwyr yn talu cyfran uwch o gyllid i sefydliadau ar ffurf ffioedd dysgu, mae dylanwad CCAUC wedi lleihau i ryw raddau. O safbwynt ehangu mynediad, sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd ariannol, mae'r broses o gyflwyno Deddf 2015 wedi mynd i'r afael yn rhannol â'r sefyllfa hon.

Mae gan CCAUC ddyletswydd statudol i asesu ansawdd addysg uwch yng Nghymru, a bydd y Cyngor yn cyflwyno Fframwaith Asesu Ansawdd newydd ar gyfer 2017/18. Bydd darparwyr yn gorfod cydymffurfio â gofynion fframwaith lefel uchel sy'n cyd-fynd ag egwyddorion a gofynion sylfaenol dull gweithredu Lloegr a Gogledd Iwerddon, er bydd y cynigion gweithredu wedi'u teilwra i anghenion Cymru. Bydd asiantaeth allanol a restrir yn y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd (EQAR) yn adolygu prosesau sicrhau ansawdd darparwyr o leiaf unwaith bob chwe blynedd. Gan fod dyletswydd statudol CCAUC i asesu ansawdd yn berthnasol i ddarpariaeth AU gan SAB yn y sector wedi'i reoleiddio, mae'n bosibl y bydd cylch gwaith Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, neu gylch gwaith sefydliad sicrhau ansawdd addysg uwch arall, yn berthnasol i rai sefydliadau.

Mae gan Estyn, yr Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, gyfrifoldeb statudol am arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau addysg bellach (SAB) a darparwyr dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned. Mae Estyn yn arolygu darpariaeth chweched dosbarth fel rhan o arolwg ysgol gyfan. Nid yw ansawdd darpariaeth addysg chweched dosbarth yn cael ei adolygu'n annibynnol ar adolygiad yr Arolygiaeth o'r ysgol gyfan.

Mae'r ffaith fod cynifer o systemau rheoleiddio a llywodraethu gwahanol yn bodoli ar gyfer elfennau gwahanol o'r sector PCET yn arwain at gymhlethdod a'r perygl o ddyblygu gwaith, gwaith yn gorgyffwrdd a dryswch. Yn waeth na hynny, mae'r sefyllfa bresennol yn milwrio yn erbyn sector PCET cydlynol, cydweithredol ac integredig, sy'n ei gwneud yn anodd iawn rhoi strategaeth gyffredinol ar waith. Nid oes unrhyw gorff penodol yn hyrwyddo cydweithredu er budd dysgwyr neu gyflogwyr. Yn wir, mae yna berygl gwirioneddol nad yw sefydliadau sy'n darparu PCET yn eu hystyried eu hunain yn rhan o un sector ôl-orfodol, gan arwain at gystadleuaeth niweidiol rhwng rhannau gwahanol o'r sector a cholli cyfleoedd i gydweithio er budd dysgwyr a'r economi.

*Rheoleiddio Addysg Uwch yng Nghymru*

Cyflwynodd Deddf 2015 system reoleiddio newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru sy'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd gan CCAUC. Newidiwyd y drefn gyllido ar gyfer y sector AU yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2012/13 ymlaen, yn dilyn mabwysiadu llawer o argymhellion Adolygiad Browne[26], a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU i ystyried sut y byddai'r sector AU yn cael ei ariannu yn Lloegr yn y dyfodol. Y prif newid oedd rhoi'r hawl i sefydliadau yn Lloegr godi ffioedd hyd at £9,000 y flwyddyn, a chynnig benthyciadau i fyfyrwyr er mwyn talu'r ffioedd ychwanegol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r datblygiad

[26] The Independent Review of Higher Education Funding and Student Finance, 12 Hydref 2010
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/hereview.independent.gov.uk/hereview/

hwn drwy ganiatáu i sefydliadau yng Nghymru sy'n derbyn cyllid CCAUC godi ffioedd dysgu o hyd at £9,000 y flwyddyn, yn amodol ar ymrwymiadau mynediad teg gan sefydliadau sy'n codi ffioedd o dros £4,000. Hefyd, roedd grant ffioedd dysgu nad yw'n seiliedig ar brawf modd ar gael i fyfyrwyr o Gymru i dalu am y cynnydd mewn ffioedd dysgu ledled y Deyrnas Unedig.

Cyn cyflwyno'r newidiadau a amlinellir uchod, prif ffynhonnell cyllid cyhoeddus ar gyfer y sector AU yng Nghymru oedd grantiau rheolaidd (ar gyfer addysgu a gweithgareddau eraill) gan CCAUC i sefydliadau. Ar ôl cyflwyno grantiau ffioedd dysgu nad oeddent yn seiliedig ar brawf modd, ailgyfeiriwyd cyllid (a oedd wedi'i ddarparu cyn hynny gan Lywodraeth Cymru i CCAUC cyn cael ei ddyrannu gan CCAUC i sefydliadau yng Nghymru) i gyllideb cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru, gyda thaliadau'n cael eu gwneud gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Cafwyd gostyngiad yn y cymorth ariannol a dalwyd yn uniongyrchol gan CCAUC i sefydliadau yng Nghymru, ac o ganlyniad nid oedd CCAUC yn gallu pennu telerau ac amodau ar gyfer y cymorth hwnnw i'r un graddau. O ganlyniad, nid oedd system reoleiddio AU, a oedd yn dibynnu ar CCAUC yn pennu telerau ac amodau ariannu yn ymwneud â rheoli ffioedd, ansawdd addysg a rheolaeth ariannol, yn gweithredu'n effeithiol. Ar hyn o bryd, mae 53% o holl incwm sefydliadau AU yng Nghymru yn deillio o ffioedd dysgu, ac mae 12% yn deillio o grantiau'r Cyngor Cyllido[27]. Oherwydd hyn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth (Deddf 2015) i gyflwyno system reoleiddio nad yw'n dibynnu ar delerau ac amodau cyllid rheolaidd CCAUC.

Cyflwynodd Deddf 2015 system reoleiddio AU sy'n sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio'n gadarn ac yn gymesur os yw eu cyrsiau'n derbyn cymorth grant a benthyciadau gan Lywodraeth Cymru. Mae Deddf 2015 yn diogelu'r cyfraniad sy'n cael ei wneud at y budd cyhoeddus o ganlyniad i gymhorthdal ariannol sylweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector AU. Mae hefyd yn canolbwyntio'n gadarn ar fynediad teg i AU ac yn cadw ac yn diogelu ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd ein prifysgolion. Roedd Deddf 2015 wedi rhoi swyddogaethau statudol newydd i CCAUC. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys dyletswyddau i fonitro lefel y ffioedd dysgu sy'n cael eu codi ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau yng Nghymru a reoleiddir, yn ogystal â sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio â'r cod rheoli ariannol a gweithgareddau sy'n cefnogi mynediad teg i addysg uwch. Roedd Deddf 2015 yn sicrhau cysondeb, mor bell â phosibl, â'r system reoleiddio flaenorol a weithredwyd gan CCAUC o dan delerau ac amodau cyllid, ac ni wnaeth gyflwyno diwygiadau polisi arwyddocaol. Fodd bynnag, fe wnaeth y Ddeddf newid y sylfaen reoleiddio, gwneud aelodaeth o'r sector AU a reoleiddir yng Nghymru yn ddewisol, a sefydlu cynlluniau ffioedd a mynediad fel conglfaen i'r system reoleiddio newydd.

Mae addysg uwch wedi'i datganoli yng Nghymru ac mae Cymru wedi mabwysiadu polisïau gwahanol ym maes addysg uwch dros y blynyddoedd diwethaf o'i gymharu â Lloegr. Fodd bynnag, mae'n anochel bod diwygiadau addysg uwch Llywodraeth y DU yn effeithio ar Gymru oherwydd ffactorau fel nifer sylweddol o fyfyrwyr yn croesi'r ffin, y ddeddfwriaeth gyffredin flaenorol a oedd yn sylfaen i gyllid a rheoleiddio addysg uwch yn y ddwy wlad, a'r ffaith nad yw ymchwil addysg uwch yn fater sydd wedi'i ddatganoli'n llawn. Bydd datblygiadau diweddar sy'n deillio o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 Llywodraeth y DU yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys sefydlu'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a'r Swyddfa i Fyfyrwyr, a'r broses o weddnewid y sefyllfa o ran cyllido ymchwil drwy greu Ymchwil ac Arloesi'r DU.

[27] Cyhoeddiad yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch: Staff a chyllid sefydliadau addysg uwch 2015/16 http://gov.wales/statistics-and-research/staff-finance-higher-education-institutions/?skip=1&lang=cy

Aeth Llywodraeth Cymru ati i asesu'r goblygiadau i Gymru yn sgil y diwygiadau hyn, gan ddod i'r casgliad mai darpariaeth ddeddfwriaethol gyfyngedig yn unig i Gymru y byddai ei hangen ym Mesur Llywodraeth y DU. Roedd angen gwneud hyn er mwyn sicrhau na fyddai'r newidiadau yn Lloegr yn cael effaith niweidiol ar sefydliadau yng Nghymru, y myfyrwyr sy'n astudio ynddynt na gallu Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â goblygiadau diwygiadau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid o Gymru amrywiaeth eang o fuddiannau a phryderon sy'n deillio o ddiwygiadau Llywodraeth y DU, ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn gofyn am sylwadau ynghylch a oes angen newid polisi a newid deddfwriaethol ar gyfer materion fel y canlynol:

- trefniadau i amddiffyn myfyrwyr os yw cyrsiau'n dod i ben neu os yw darparwyr yn methu mewn sefydliadau sydd wedi'u dynodi i dderbyn cymorth statudol ar gyfer myfyrwyr;
- gwelliannau i ehangu mynediad, cadw myfyrwyr a llwyddiant myfyrwyr yn y sector AU drwy dryloywder mewn perthynas â cheisiadau i sefydliadau a rhannu data yn ymwneud â derbyn ceisiadau;
- moderneiddio'r trefniadau deddfwriaethol a gweithdrefnol ar gyfer llywodraethu sefydliadol, a diwygiadau posibl i'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau i ddyfarnu graddau a theitlau prifysgolion; a
- newidiadau i'r trefniadau ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth myfyrwyr.

Byddwn yn trafod y goblygiadau i Gymru sy'n deillio o'r cynigion presennol i ddiwygio AU yn Lloegr yn ddiweddarach yn y papur.

*Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith*

Mae addysg bellach yng Nghymru yn sector amrywiol sy'n darparu amrywiaeth eang o gymwysterau ar gyfer dysgwyr o bob oed. Mae AB yn cael ei darparu drwy'r broses o weithredu Cymwys am Oes, y Cynllun Gweithredu Sgiliau a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae Cymwys am Oes yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg rhwng 3 a 19 oed. Mae'r Datganiad Polisi ar Sgiliau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, yn cyflwyno gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer cenedl fwy medrus. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn canolbwyntio ar ddatblygiad, gan alluogi dysgwyr i wireddu eu potensial.

Mae Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) 2014 wedi rhoi rhagor o ymreolaeth i SAB. Mae hyn wedi hyrwyddo perthynas waith newydd rhwng SAB a Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod colegau yn darparu addysg bellach effeithiol yn eu cymunedau. Cyhoeddwyd Cod newydd ar gyfer colegau addysg bellach ym mis Chwefror 2016 er mwyn sicrhau hyder yn eu trefniadau llywodraethu wrth iddynt symud i gyfnod newydd o annibyniaeth. Mae'r Cod wedi'i gydgysylltu ar ran y sector gan ei gorff cynrychioladol, Colegau Cymru, ac mae'n cyflwyno gwerthoedd a disgwyliadau cyffredin ar gyfer llywodraethu colegau yn llwyddiannus.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyr blaenoriaethau blynyddol ar gyfer SAB ac awdurdodau lleol yn ymwneud â'u darpariaeth chweched dosbarth. Mae hyn yn nodi disgwyliadau cyffredinol Gweinidogion o safbwynt darpariaeth, ac mae cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau yn cael ei fonitro fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido ôl-16. Mae'n rhaid i SAB gyflwyno cynlluniau darpariaeth bob blwyddyn fel rhan o gylch cynllunio blynyddol, gan ddangos sut y bydd eu darpariaeth o raglenni dysgu yn ymateb i

ddemograffeg dysgwyr ac anghenion cyflogwyr; defnyddir data dysgwyr i fonitro perfformiad yn erbyn y cynlluniau. Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â SAB ac awdurdodau lleol i drafod cynnydd a newidiadau i'r ddarpariaeth, a bu rhywfaint o gynnydd o ran dod â darparwyr at ei gilydd i helpu i fynd i'r afael â materion cystadleuaeth a dyblygu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am fonitro deilliannau dysgwyr hefyd. Mae adroddiadau blynyddol ar ddeilliannau dysgwyr, sy'n crynhoi cyfraddau llwyddiant cyrsiau, wedi'u cyhoeddi ers nifer o flynyddoedd, ac maent yn seiliedig ar ddata meincnodi manylach y gall darparwyr eu defnyddio i werthuso a chymharu eu perfformiad. Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau i'r mesurau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd: nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng deilliannau graddedig ac nid ydynt yn ystyried deilliannau mwy hirdymor fel cyrchfannau dysgwyr. Nid oes unrhyw gysondeb rhwng y mesurau a ddefnyddir ar gyfer SAB a lleoliadau chweched dosbarth, hyd yn oed os ydynt yn darparu'r un cyrsiau a rhaglenni dysgu, fel cymwysterau Safon Uwch. Rydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno set newydd a chyson o fesurau perfformiad, gan gynnwys mesurau cyflawni, gwerth ychwanegol a chyrchfannau, yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd ddechrau 2017[28].

Mae Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnwys prentisiaethau, hyfforddeiaethau a rhaglenni Twf Swyddi Cymru. Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yn seiliedig ar gontract, ac mae'r rhwydwaith o ddarparwyr yn cael ei gaffael drwy broses dendro gystadleuol bob ychydig o flynyddoedd. Am y rheswm hwn, ac oherwydd bod rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith yn manteisio'n fawr ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni swyddogaeth rheoli perfformiad, sy'n canolbwyntio'n rhannol ar gydymffurfiaeth â chontractau ac ar brosesau archwilio. Serch hynny, mae'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi deilliannau dysgwyr yn debyg i'r trefniadau ar gyfer y sector AB, ac yn y ddau sector ceir mentrau gwella ansawdd amrywiol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gryfhau addysgu, dysgu, asesu ac arweinyddiaeth.

*Adroddiad Diamond*

Cyhoeddodd Panel Adolygiad Diamond ei adroddiad yn 2016[29] ar ôl ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth yn ymwneud ag addysg uwch, gan gynnwys patrymau cyfranogiad ac ehangu mynediad. Cyfeiriodd adroddiad terfynol y Panel at y consensws cadarn ymysg myfyrwyr, cyrff sy'n cynrychioli myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol sydd am ehangu cyfranogiad bod cymorth cynhaliaeth yn annigonol ar hyn o bryd a bod y mater hwn yn bwysicach i fyfyrwyr na lefel ffioedd a chymorth i dalu ffioedd.

Argymhelliad cyffredinol Adolygiad Diamond, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, oedd yr angen i sicrhau bod cyllid grant i gynorthwyo israddedigion yn canolbwyntio ar gymorth cynhaliaeth, a bod benthyciadau'n cael eu defnyddio i dalu ffioedd dysgu yn llawn. Wrth i argymhellion Adolygiad Diamond gael eu rhoi ar waith o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen, bydd cymorth cynhaliaeth yn cael ei wella ar gyfer pob myfyriwr sy'n hanu o Gymru, a bydd y rheini sydd â'r angen mwyaf yn derbyn y lefel uchaf o gymorth grant. Gall y newid hwn helpu i ehangu mynediad i AU ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol – myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel yn benodol. Hefyd, gall y diwygiadau wella'r sefyllfa o ran cadw myfyrwyr a sicrhau eu bod yn cwblhau eu cyrsiau, trwy sicrhau bod pob myfyriwr – waeth beth fo'i gefndir – yn derbyn digon o gymorth cynhaliaeth i dalu am eu costau byw wrth astudio.

[28] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/mesurau-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-yng-nghymru
[29] http://gov.wales/docs/dcells/publications/160927-he-review-final-report-cy.pdf

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai mynediad i addysg uwch fod yn seiliedig ar allu academaidd a dymuniad i fanteisio ar addysg mewn prifysgol. Ni ddylai gael ei benderfynu yn ôl cefndir cymdeithasol unigolyn. Byddwn yn parhau i gefnogi myfyrwyr er mwyn ehangu mynediad i brifysgolion, gan sicrhau hefyd bod ein prifysgolion yn cael eu cyllido'n briodol fel y gallant gynnig addysg ac ymchwil o'r radd flaenaf. Bydd y pecyn cymorth i fyfyrwyr newydd yn targedu'r rheini sydd â'r anghenion mwyaf, ac er y bydd pob myfyriwr yn derbyn swm sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, bydd myfyrwyr o gartrefi incwm isel yn derbyn y grantiau mwyaf.

Rydym yn credu y bydd gweithredu ar ein hymateb i Adolygiad Diamond yn annog myfyrwyr o bob cefndir i fynychu addysg uwch ac yn cynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio cyrsiau israddedig rhan-amser a chyrsiau ôl-radd.

Felly, daeth i'r amlwg o'r ymateb cychwynnol bod angen i'r Llywodraeth ddatblygu system decach ar gyfer dosbarthu risgiau rhwng y Llywodraeth, sefydliadau AU a myfyrwyr. Fodd bynnag, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gymorth i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru wedi cadarnhau nad oes unrhyw gonsensws ar rannu a rheoli risgiau.

Aeth gweithgor ati i gwblhau dadansoddiad mewnol o'r dewisiadau posibl i ddiwygio'r risgiau hyn. Er bod y grŵp wedi dod i'r casgliad nad oes angen newid y system bresennol ar hyn o bryd, mae'n credu y byddai'n ddoeth i'r Llywodraeth ystyried y materion canlynol yn yr hirdymor, er mwyn sicrhau bod y polisi o roi cymorth i fyfyrwyr yn parhau i fod yn gynaliadwy a bod cyllid ar gyfer sefydliadau yng Nghymru yn aros yn sefydlog:

- yn unol â gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU, a ddylai Llywodraeth Cymru fod â'r pŵer i gyflwyno ffioedd amrywiadwy yn dibynnu ar gartref gwreiddiol myfyrwyr sy'n mynychu prifysgolion yng Nghymru;
- y dylai fod cysylltiad ffurfiol rhwng cyllidebau ar gyfer addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr. Byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd wrth ddosbarthu cyllidebau gan ddibynnu ar alw; ac
- o ystyried y bydd lefel y cymorth yn gysylltiedig â'r cyflog byw cenedlaethol, y dylai'r Llywodraeth gadw'r gallu i amrywio lefelau grantiau a benthyciadau ar sail galw – awgrymir y dylid adolygu lefel y cymorth bob 3 blynedd yn unig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a darparu diogelwch i fyfyrwyr.

Byddai cadw / ennill y pwerau hyn yn sicrhau bod y Llywodraeth yn gallu gwneud penderfyniadau synhwyrol a rhesymegol yn ymwneud â lefelau cymorth ac ariannu yn y dyfodol mewn ffordd amserol.

**COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL CYMRU**

Yn unol ag argymhelliad adroddiad Hazelkorn, rydym yn cynnig sefydlu awdurdod strategol newydd ar gyfer Cymru, Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru (y Comisiwn), i ddarparu goruchwyliaeth, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd. Bydd y Comisiwn yn gweithio o dan gylch gwaith a bennir gan Weinidogion Cymru ac yn unol â gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system addysg a sgiliau ôl-orfodol yng Nghymru sy'n seiliedig ar gysylltiadau cryfach rhwng polisi, darparwyr a nodau economaidd-gymdeithasol. Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo ffocws cyffredin, yn arwain cysylltedd ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol er mwyn sicrhau gwerth am arian, ac yn gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r gwasanaeth a ddarperir i ddysgwyr a busnesau ledled Cymru.

Drwy weithredu ar sail hyd braich, byddai'r Comisiwn yn sicrhau gwrthrychedd a safbwyntiau eang wrth ryngweithio â Llywodraeth Cymru a'r holl ddarparwyr a chyflogwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Byddai'r Comisiwn newydd yn:

- creu amgylchedd sefydlog ar gyfer sefydliadau a dysgwyr;
- darparu dull gweithredu mwy hirdymor, strategol a chyson ar gyfer cynllunio a darparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol;
- helpu i reoli'r effeithiau posibl sy'n deillio o newid;
- gwella mynediad i'r seilwaith addysg a sgiliau a chysylltedd i blatfformau dysgu rhithwir;
- helpu i ddatblygu talent a rhagoriaeth sgiliau;
- galluogi Cymru i feincnodi yn erbyn cymaryddion a chystadleuwyr rhyngwladol;
- lleihau cystadleuaeth ddiangen ac osgoi dyblygu adnoddau a darpariaeth; a
- cryfhau'r cysylltiad â chyflogwyr yn genedlaethol.

Rydym yn cynnig trosglwyddo amrywiaeth o swyddogaethau presennol o Lywodraeth Cymru a CCAUC i'r Comisiwn. Hefyd, rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod y Comisiwn yn cyflogi digon o staff â'r cymwysterau priodol i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a sicrhau bod y sector yn derbyn y cymorth a'r her sydd eu hangen arno i sicrhau rhagoriaeth.

*Cynllunio Strategol*

Byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am gynllunio'r ddarpariaeth addysg a sgiliau mewn ffordd strategol ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru, gan sicrhau:

- bod y ddarpariaeth yn cael ei chynllunio i ddiwallu anghenion economaidd Cymru;
- bod y ddarpariaeth a'r llwybrau datblygu'n gydlynol ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol; a
- bod y ddarpariaeth yn fwy hyblyg, effeithiol, ymatebol a pherthnasol.

Byddai angen i'r Comisiwn weithio gyda darparwyr dysgu a hyfforddiant ac ymgynghori â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i baratoi **cynllun strategol** ar gyfer cyfnod pum mlynedd yn y lle cyntaf. Byddai angen i'r Comisiwn gyflwyno ei gynllun drafft i gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ac yna paratoi a chyflwyno cynllun wedi'i ddiweddaru i'w gymeradwyo bob pum mlynedd. Wrth baratoi ei gynllun strategol, byddai angen i'r Comisiwn ystyried unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.

Byddai'r cynllun strategol yn seiliedig ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Bydd disgwyl i'r Comisiwn ddangos, drwy ei holl weithgareddau, sut y bydd yn cyfrannu at y nod o sicrhau bod Cymru yn fwy ffyniannus, uchelgeisiol, cryf ac iach. Hefyd, bydd gwaith cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol cadarn ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar sail cydweithio ac ymgysylltu yn helpu i gyflawni ein huchelgais i greu cymunedau mwy cydlynus, helpu'r iaith Gymraeg i ffynnu a gwneud Cymru'n wlad fwy cyfartal.

Mae cynigion ar gyfer mecanweithiau posibl a fydd yn sylfaen i waith y Comisiwn wedi'u hamlinellu yn y papur hwn. Mae un cynnig yn awgrymu sefydlu **Cytundebau Deilliannau** priodol gyda'r sefydliadau a'r darparwyr hyfforddiant sy'n cael eu rheoleiddio neu eu cyllido gan y Comisiwn. Byddai Cytundebau Deilliannau yn pennu nodau strategol, tymor canolig ar gyfer y sefydliad / darparwr, ochr yn ochr â thargedau ac amcanion gweithredol a fyddai'n sylfaen i ddyraniadau cyllid a gwaith monitro perfformiad blynyddol y Comisiwn. Gallai Cytundebau Deilliannau gynnwys amrywiaeth o dargedau neu nodau rhanbarthol, gofodol a sector ar gyfer deilliannau. Hefyd, byddent yn fframwaith ar gyfer deialog cyson rhwng y Comisiwn a sefydliadau unigol mewn ysbryd o gymorth a her. Yn ogystal, byddai'r Cytundebau Deilliannau yn cael eu creu yng nghyd-destun uchelgeisiau ac amcanion strategol tymor canolig a hirdymor pob sefydliad. Dylai hyn adlewyrchu'r cyd-destun dinesig, academaidd, economaidd a sgiliau.

Er mwyn gwella integreiddio ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru, byddai'r Comisiwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol eraill i ddatblygu dulliau gweithio newydd, gan gydgysylltu rhaglenni a chefnogi strategaethau trawsbynciol.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gyfrannu at waith cynllunio strategol ar lefel genedlaethol ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?**

**A ddylai Cytundebau Deilliannau fod yn sylfaen i berthynas cynllunio strategol y Comisiwn â sefydliadau a darparwyr? Os felly, pa gamau y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw Cytundebau Deilliannau yn hyrwyddo meddylfryd tymor byr ymysg sefydliadau?**

*Un corff cyllido*

Bwriad Llywodraeth Cymru yw trosglwyddo holl swyddogaethau presennol CCAUC i'r Comisiwn newydd. Hefyd, byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am bolisi, cynlluniau, cyllid, contractau, ansawdd, monitro ariannol ac archwilio Dysgu Seiliedig ar Waith, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a, lle bo'n berthnasol, rhaglenni cyflogadwyedd a rhaglenni dan arweiniad cyflogwyr. Llywodraeth Cymru sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn ar hyn o bryd, ar sail cynlluniau presennol a chynlluniau rhagamcanol. Felly, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian o gyllideb sy'n werth dros £500 miliwn y flwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ymreolaeth sefydliadol. Mae'n rhaid i sefydliadau fod â'r hawl i wneud penderfyniadau sydd er eu budd pennaf nhw a budd pennaf eu dysgwyr a'u cymunedau. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn newydd yn parhau i barchu egwyddorion arloesi, ymatebolrwydd, ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd. Mae cyflogwyr yn cyflawni rôl arweiniol yn ein system sgiliau, a byddai'r Comisiwn newydd yn gweithio'n agos gyda busnesau i'w helpu i ddatblygu gweithlu medrus

a brwdfrydig i roi hwb i lwyddiant masnachol a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn hybu buddiannau'r genedl gyfan. Gan fod cymaint o gyllid cyhoeddus yn cael ei roi i amrywiaeth eang o ddarparwyr dysgu a hyfforddiant, a bod llwyddiant ein heconomi yn dibynnu ar y deilliannau ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr, mae'n hanfodol bod y Comisiwn a'r darparwyr sy'n cael eu cyllido ganddo yn atebol am y deilliannau sy'n cael eu sicrhau drwy'r buddsoddiad hwn.

Ar hyn o bryd, mae cyllid yn cael ei ddarparu drwy amrywiaeth o fecanweithiau gwahanol, gan ddibynnu ar natur y cwrs, y sefydliad neu'r darparwr a hyd yn oed amcan y rhaglen – e.e. cael swydd. Bydd cyflwyno Cytundebau Deilliannau yn helpu i sicrhau atebolrwydd a rhagor o gysondeb. Byddent yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau polisi cenedlaethol a rhanbarthol, gan sicrhau bod sefydliadau'n cael eu cyllido i ddarparu ystod benodedig o ddeilliannau. Bydd y Comisiwn yn gweithio gyda sefydliadau a darparwyr i gytuno ar ddeilliannau a thargedau perthnasol sy'n cyfrannu at feysydd blaenoriaeth cenedlaethol. Ar adeg o gyni cenedlaethol a phwysau sylweddol cyson ar gyllidebau sydd wedi'u datganoli i Gymru, mae'n hollbwysig defnyddio cyllid cyfyngedig yn effeithiol.

O ganlyniad, rydym yn cynnig y dylai cymhwysedd ar gyfer cyllid gan Weinidogion Cymru ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru fod yn amodol ar gytuno i'r cynllun strategol a gyflwynir gan y Comisiwn. Hefyd, gallai cyllid ar gyfer darparwyr unigol (neu glystyrau o ddarparwyr) ddibynnu ar berfformiad yn erbyn Cytundebau Deilliannau. Rydym yn sylweddoli y byddai angen cynllunio'r broses o newid i'r model cyllido newydd yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw sefydliadau a darparwyr hyfforddiant yn wynebu risg annerbyniol. Yn ddiweddarach yn y papur hwn, rydym yn cynnig amrywiaeth o fodelau rheoleiddio posibl a allai hwyluso prosesau rheoli risg mwy effeithiol ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Byddai'r modelau hyn hefyd yn ymateb i amgylchiadau ac anghenion gwahanol fathau o ddarparwyr.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n cytuno y dylai cyllid ar gyfer y Comisiwn ddibynnu ar lunio cynllun strategol wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru?**

**Ydych chi'n cytuno y dylai cymhwysedd darparwr ar gyfer cyllid ddibynnu ar lunio Cytundeb Deilliannau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol yn y Cynllun Strategol?**

**Ydych chi'n cytuno y dylai lefelau cyllid ddibynnu, mewn unrhyw ffordd, ar berfformiad darparwr yn erbyn ei Gytundeb Deilliannau?**

**Ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion i'r sefydliad a/neu Lywodraeth Cymru, os yw sefydliad mewn perygl ariannol difrifol?**

**Os yw'r Comisiwn yn credu nad yw sefydliad yn hyfyw yn ariannol bellach, ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion priodol i Lywodraeth Cymru?**

**Pa fesurau diogelu y bydd eu hangen o bosibl?**

**Diogelu buddiannau dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol**

Rydym yn sylweddoli bod dewis dilyn rhaglen astudio yn gallu bod yn ymrwymiad mawr i ddysgwyr. Os na allant barhau i astudio'r cwrs gyda'r darparwr o'u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws neu safle yn cau, neu oherwydd methiant darparwr, dylid rhoi trefniadau ar waith iddynt barhau â'u haddysg.

Mae trefniadau eisoes ar waith yng Nghymru i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i dderbyn cymorth myfyrwyr i gwblhau eu cwrs addysg uwch gyda darparwr nad yw bellach yn rhan o'r sector AU wedi'i reoleiddio. Wrth reswm, cydnabyddir na fydd dysgwyr eisiau cwblhau eu cwrs gyda'r un darparwr, neu'n gallu gwneud hynny, ym mhob achos.

Ar hyn o bryd, nid yw mesurau diogelu myfyrwyr ym maes addysg uwch yn ofyniad statudol, ac maent yn cael eu cynnwys mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, maent yn rhan o ofynion sylfaenol fframwaith asesu ansawdd addysg uwch Cymru, a sefydlwyd gan CCAUC. Hefyd, mae Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU[30] yn nodi bod gan sefydliadau sy'n dyfarnu graddau rwymedigaethau i fyfyrwyr sy'n cael eu derbyn i raglenni astudio o dan eu hawdurdod i ddyfarnu graddau. Maent yn cynnwys, ymysg pethau eraill, sicrhau bod cynlluniau wrth gefn digonol ar waith i ddiogelu buddiannau academaidd myfyrwyr pe bai rhaglenni astudio yn dod i ben. Mewn achosion lle mae CCAUC yn credu y gallai darpariaeth mewn sefydliad a reoleiddir mewn perygl, byddai angen i'r sefydliad roi datganiad diogelu myfyrwyr i CCAUC yn cadarnhau sut y byddai'r sefydliad yn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cwblhau eu cymwysterau os yw'r cwrs yn dod i'r ben neu'r sefydliad yn methu.

Hoffem ystyried a fyddai'n fanteisiol i orfodi darparwyr addysg uwch i gynnwys cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu Cytundebau Deilliannau, i'w cymeradwyo gan y Comisiwn. Gellid rhannu'r cynlluniau â darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol er mwyn darparu gwybodaeth iddynt am sut y byddent yn cael eu cefnogi pe bai eu haddysg yn cael ei heffeithio gan gwrs yn dod i ben, campws yn cau neu ddarparwr yn methu.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol cyfatebol i ddiogelu buddiannau dysgwyr mewn sefydliad addysg bellach os nad ydynt yn gallu parhau i astudio eu cwrs gyda'r darparwr o'u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws neu safle yn cau, neu oherwydd methiant darparwr. Fodd bynnag, mae Deddf Addysg Dechnegol a Phellach 2017 yn gwneud darpariaeth i system weinyddol arbennig weithredu ochr yn ochr â'r drefn ansolfedd arferol er mwyn diogelu dysgwyr os yw coleg AB neu sefydliad dynodedig (cyrff AB) yn mynd yn fethdalwyr. Bydd y ddarpariaeth hon yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Mae darpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn cael ei chaffael ar hyn o bryd. Mae hyn yn creu'r tebygolrwydd o ddadleoli dysgwyr ym mhob cylch caffael; mae'n bosibl na fydd darparwyr sy'n meddu ar gontract cyn y tendr yn meddu ar gontract ar ôl y tendr. Caiff y newid hwn yn y rhwydwaith ei reoli drwy sicrhau bod gan y rheini sy'n cyflwyno cynigion llwyddiannus ddyletswydd i recriwtio unrhyw ddysgwyr sydd wedi'u dadleoli a sicrhau eu bod yn parhau â'u hyfforddiant nes cwblhau eu rhaglenni dysgu. Bydd angen i staff y Comisiwn reoli'r newid hwn yn ofalus i sicrhau nad yw addysg myfyrwyr yn dioddef yn ddiangen.

Os yw darparwr yn methu y tu allan i'r broses gaffael, byddai angen i'r Comisiwn nodi darpariaeth amgen cyn gynted â phosibl fel bod modd symud dysgwyr i rywle arall. Gall hyn olygu bod addysg myfyrwyr yn cael ei hatal dros dro tra bod camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith. Er mwyn rheoli'r sefyllfa yn y cyfnod interim, bydd angen i'r Comisiwn

[30] Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU: http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code

ddatblygu proses sy’n ei alluogi i gysylltu â dysgwyr a chyflogwyr (ac, os oes angen, gwneud unrhyw daliadau lwfans i fyfyrwyr) i hwyluso’r cyfnod pontio. Caiff ystyriaeth ei roi i’r mathau o gamau diogelu y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer prentisiaid os yw cyflogwr yn methu, neu os ydynt yn methu cwblhau eu prentisiaeth am unrhyw reswm arall.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi’n cytuno bod angen cryfhau’r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy’n astudio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru?**

**Os ydych chi, pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr na allant barhau i astudio eu cwrs gyda’r darparwr o’u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws yn cau neu oherwydd methiant darparwr?**

**A ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy’n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi’u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru gynnwys cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu Cytundebau Deilliannau?**

*Cefnogi myfyrwyr sy’n dymuno newid cwrs neu ddarparwr*

Mae gallu myfyrwyr i newid cwrs neu ddarparwr, tra’n sicrhau bod eu cynnydd addysgol presennol yn cael ei gydnabod, yn elfen bwysig o sicrhau bod anghenion dysgwyr yn ganolog i’r system addysg. Gall dysgwyr benderfynu trosglwyddo o’u cwrs gwreiddiol am nifer o resymau, ac mae’r gallu i drosglwyddo yn gallu darparu hyblygrwydd i sicrhau cydbwysedd rhwng ymrwymiadau gwaith, bywyd ac astudio, gan helpu dysgwyr i osgoi rhoi’r gorau i’w haddysg. Mae angen codi ymwybyddiaeth o’r trefniadau i newid cwrs neu ddarparwr ymysg dysgwyr.

**Cwestiynau:**

**Pa gymorth sydd angen ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy’n dymuno newid cwrs neu ddarparwr?**

**Pa rôl, os o gwbl, y dylai’r Comisiwn newydd ei chael o ran sicrhau bod trefniadau ar waith i hwyluso trefniadau trosglwyddo myfyrwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r trefniadau hyn ymysg dysgwyr?**

*Rheoli Cwynion Dysgwyr*

Dylai pob darparwr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith i alluogi dysgwyr i gwyno am eu profiad dysgu. Hefyd, disgwylir i ddarparwyr ddefnyddio cwynion dysgwyr i wella ansawdd eu darpariaeth.

Mae dysgwyr sy’n astudio mewn sefydliadau *addysg uwch* yn gallu cyfeirio cwynion nad ydynt wedi’u datrys i Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA). Mae dysgwyr sy’n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach, a gyda darparwyr addysg uwch amgen sy’n cynnig cyrsiau sydd wedi’u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr, hefyd yn gallu anfon eu cwynion i’r OIA. Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yw’r gweithredwr dynodedig ar gyfer ymdrin â chwynion heb eu datrys gan fyfyrwyr AU yng Nghymru a Lloegr. Mae’n darparu cynllun cwynion annibynnol a thryloyw sy’n adolygu cwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd, ac yn darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd i aelodau’r cynllun ar sut i ymdrin â chwynion gan fyfyrwyr ac apeliadau academaidd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer *sefydliadau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith* ar ymdrin â chwynion. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion heb eu datrys gan fyfyrwyr sy'n astudio gyda'r darparwyr hyn. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni prentisiaethau lefel uwch sy'n arwain at gymwysterau addysg uwch yn gallu cyflwyno cwyn nad yw wedi'i datrys ynglŷn â'u cwrs addysg uwch i'r OIA.

Nid oes unrhyw gorff cyfatebol i'r OIA sy'n derbyn cwynion heb eu datrys gan ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach a chyrsiau dysgu seiliedig ar waith mewn sefydliadau AB neu gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

**Cwestiynau:**

**A oes angen cyflwyno trefniadau datrys cwynion ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol os nad ydynt yn gallu gwneud cwyn i gorff annibynnol ar hyn o bryd?**

**Os felly, pa drefniadau datrys cwynion sydd angen eu rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?**

*Sicrhau a Gwella Ansawdd*

Un o gyfrifoldebau allweddol y Comisiwn newydd fyddai sicrhau bod cyfleoedd dysgu a hyfforddi ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol o'r safon uchaf bosibl a'u bod yn sicrhau'r deilliannau dymunol ar gyfer dysgwyr. Ar hyn o bryd, mae gan CCAUC gyfrifoldeb statudol i asesu neu drefnu i asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am raglenni addysg uwch sy'n cael eu darparu gan golegau addysg bellach sydd â chynlluniau ffioedd a mynediad cymeradwy. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol mewn lleoliadau AB a lleoliadau cysylltiedig, ac mae'n gyfrifol hefyd am arolygu ansawdd hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon ym maes addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth y mae'n ei chyllido o ansawdd digonol i ddiwallu anghenion dysgwyr ac, yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys systemau ar gyfer cyfrifo a monitro mesurau perfformiad, yn ogystal â chymorth ariannol ar gyfer mentrau gwella ansawdd.

Mae sicrhau ansawdd yn hollbwysig i'r broses o sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer dysgwyr. Felly, byddai gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant ym mhob sector ôl-orfodol. Ni fyddai'r Comisiwn o reidrwydd yn mynd ati ei hun i gynnal arolygiadau sicrhau ansawdd, ond byddai'n gallu trefnu bod y gwaith yn cael ei wneud gan unrhyw asiantaeth neu asiantaethau addas – gan gynnwys unrhyw sefydliad sicrhau ansawdd rhyngwladol – os yw hynny er budd gorau dysgwyr yng Nghymru.

Ond mae angen gwneud mwy na sicrhau ansawdd yn unig. Er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer ysgolion a'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, mae angen i bob rhan o'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ganolbwyntio nid yn unig ar gynnal safonau ansawdd gofynnol, ond ar welliant parhaus. Felly, byddai gan y Comisiwn ddyletswydd i hybu gwelliant yn yr addysgu a'r dysgu ledled y sector y byddai'n gyfrifol amdano.

**Cwestiynau:**

**Pa fodelau y gallai'r Comisiwn eu defnyddio i greu Fframwaith Sicrhau Ansawdd sy'n cwmpasu darpariaeth o bob math?**

**A ddylai gwella ansawdd fod yn nodwedd allweddol o Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Comisiwn?**

*Sicrwydd Ariannol a Llywodraethu*

Er mwyn sicrhau darpariaeth o'r safon uchaf ar gyfer dysgwyr a diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol ynddynt, mae'n rhaid i ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol fod â threfniadau rheoli ariannol a llywodraethu cadarn ac effeithiol.

O dan y trefniadau presennol, mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gyhoeddi cod rheoli ariannol a sicrhau bod darparwyr addysg uwch sy'n cael eu rheoleiddio yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion perthnasol o dan y Cod hwn. Hefyd, mae CCAUC yn sicrhau bod sefydliadau yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu da. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am fonitro trefniadau llywodraethu a sefyllfa ariannol SAB yn unol â'i Memorandwm Ariannol â sefydliadau, ac mae'n gyfrifol hefyd am fonitro darparwyr dysgu seiliedig ar waith o dan ei threfniadau contractio presennol.

I ddiogelu buddiannau dysgwyr a sicrhau bod gan Gymru sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol cynaliadwy o ansawdd uchel, rydym yn credu y dylid rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau trefniadau llywodraethu a sefyllfa ariannol pob darparwr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Mae prentisiaethau yng Nghymru yn cael eu rheoli gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Deddf 2009). Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym yng Nghymru ym mis Mai 2013, ac er bod newidiadau wedi bod iddi yn Lloegr, mae wedi aros yn gymharol ddigyfnewid yng Nghymru ers hynny. Yn sgil y newidiadau ehangach i'r sector ôl-16 sy'n cael eu trafod yn y Papur Gwyn hwn, rydym yn credu mai dyma'r amser priodol i ystyried a yw'r darpariaethau hyn yn parhau i fod er budd gorau prentisiaid a chyflogwyr yng Nghymru. Mae'r pwnc hwn yn bwysig iawn o ystyried y newidiadau i'r system brentisiaethau yn Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf.

**Cwestiwn:**

**Rydym yn croesawu safbwyntiau ar rôl y Comisiwn yn y dyfodol yn ymwneud â phrentisiaethau yng Nghymru. Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ar ba newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r system brentisiaethau yng Nghymru y mae Deddf 2009 yn darparu ar ei chyfer.**

*Rheoli Perfformiad a Risg*

Dylai'r Comisiwn newydd adrodd bob blwyddyn i Weinidogion Cymru ar berfformiad y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Byddai hyn yn cynnwys adroddiad ariannol a diweddariad ar niferoedd y myfyrwyr, a data perthnasol arall. Byddai cynyddu'r data sydd ar gael ar berfformiad a deilliannau sefydliadau a myfyrwyr yn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, a byddai'n ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys busnesau, ymchwilwyr a dinasyddion. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi a byddai'r Cynulliad yn craffu arno. Byddai'r adroddiad blynyddol yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru, y Cynulliad a phobl Cymru bod y cyllid a reolir gan y

Comisiwn yn cael ei ddefnyddio'n briodol i sicrhau'r deilliannau arfaethedig. Byddai'r adroddiad yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn y cynllun strategol y cytunir arno, sy'n cael ei lunio gan y Comisiwn.

Hefyd, byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod y Comisiwn a'r sefydliadau neu'r darparwyr y mae'n eu cyllido yn gallu dylanwadu ar y broses genedlaethol o wneud polisi a helpu i lywio cynlluniau strategol cenedlaethol. Byddai'r cynllun strategol yn cael ei adolygu bob tair blynedd er mwyn rhoi digon o amser i gyflwyno unrhyw newidiadau strategol a diogelu'r sector rhag peryglon newid cyson a pheryglon newid nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn awyddus i sicrhau mai parch a gweithio mewn partneriaeth yw egwyddorion sylfaenol y system newydd, sy'n sicrhau ei llwyddiant.

Yn ystod cyfnod o newid mawr a sylfaenol i systemau a threfniadau cyllido addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ledled y DU, bydd yn bwysig i'r Comisiwn newydd reoli risg ledled y system yng Nghymru. Caiff pob math o risgiau godi – gall risgiau i gyllid, enw da, llywodraethu neu ansawdd greu sawl her gymhleth i unrhyw sefydliad rheoleiddio a chyllido cenedlaethol.

Mae'r dulliau presennol o reoli perfformiad a risg yn amrywio rhwng sectorau. Mae sefydliadau addysg uwch yn gyrff annibynnol ar y llywodraeth; mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion sydd wedi'u sefydlu a phob prifysgol yng Nghymru statws elusennol ac mae rhai wedi'u sefydlu drwy Siarter Frenhinol. Mae gan CCAUC gyfrifoldeb statudol am fonitro sefyllfa ariannol darparwyr AU a reoleiddir yng Nghymru, ac adrodd ar risg.

Mae sefydliadau addysg bellach yn annibynnol ar y llywodraeth hefyd, ond maent yn dibynnu mwy ar gyllid uniongyrchol Llywodraeth Cymru i gynnal eu gweithgareddau. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fonitro sefyllfa ariannol SAB. Ar y llaw arall, mae gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith berthynas ar sail contract â Llywodraeth Cymru. Mae perfformiad yn erbyn contractau yn cael ei fonitro, ac os yw darparwr yn methu, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r effaith ar ddysgwyr i sicrhau eu bod yn gallu cwblhau eu hyfforddiant. Yn ychwanegol, Gweinidogion Cymru yw Prif Reoleiddiwr Corfforaethau Addysg Bellach Cymru a Choleg Catholig Dewi Sant at ddibenion Cyfraith Elusennau.[31]

Yn nes ymlaen yn y papur byddwn yn trafod cynigion ar gyfer system gofrestru newydd ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Dylai system gofrestru effeithiol olygu bod y Comisiwn yn gallu rheoli perfformiad a risg mewn ffordd sy'n ystyried y gwahaniaethau rhwng y mathau o ddarparwyr addysg a hyfforddiant, sy'n diogelu, i'r graddau mwyaf posibl, budd y cyhoedd a buddiannau dysgwyr a hyfforddeion.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n credu bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ddigonol ac yn briodol?**

**Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?**

*Ymchwil ac Arloesi*

[31] Charities Act 2011 (Principal Regulators of Exempt Charities) Regulations 2013/1764

Er bod gwahanu clir rhwng addysgu ac ymchwil wedi dod i'r amlwg yn y sector addysg uwch yn Lloegr, mae ein trefniadau arfaethedig yn ceisio cadw manteision cysylltiadau cenedlaethol a sefydliadol rhwng ymchwil, arloesi, addysgu, datblygu sgiliau a dysgu seiliedig ar waith. Mae sicrhau cysylltiad rhwng addysgu ac ymchwil ar un llaw ac anghenion a chyfleoedd cymdeithas ar y llaw arall[32] yn hanfodol bwysig i system addysg ôl-orfodol gadarn ag ymgysylltiad dinesig. Mae ein cynigion yn darparu ffocws a hunaniaeth glir ar gyfer prosesau ariannu a llywodraethu ymchwil ac arloesi cenedlaethol, gan fanteisio ar gysylltiadau agosach â'r gwaith o hyrwyddo a goruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ehangach.

Mae yna dystiolaeth gref fod sylfaen ymchwil gadarn yn sail i economi ffyniannus, yn cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol gwell a'i bod yn arddangos Cymru fel cenedl fodern, lewyrchus ac arloesol. Hefyd, mae tystiolaeth yn dangos bod ymchwil Cymru yn fwy dylanwadol nag ymchwil llawer o wledydd tebyg ond nad yw Cymru yn perfformio cystal o ran capasiti ymchwil a lefel y cyllid sy'n cael ei sicrhau i'w hariannu.

Cyhoeddwyd strategaeth 'Gwyddoniaeth i Gymru' Llywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2012 ac mae'n cael ei rhoi ar waith gyda'r nod o gynyddu capasiti ymchwil ym mhrifysgolion Cymru. Lansiodd Llywodraeth Cymru raglen gyllido gwerth £50 miliwn o'r enw **Sêr Cymru** yn hydref 2012 er mwyn dechrau cynyddu nifer yr ymchwilwyr. Dilynwyd hyn gan ddwy raglen Sêr Cymru newydd, diolch i gyllid Horizon 2020 a Chronfeydd Strwythurol ERDF ac arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a chyfraniadau sefydliadau. Mae'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar dri phrif faes Her Fawr: Gwyddorau Bywyd ac Iechyd, Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd, ac Uwch Beirianneg a Deunyddiau. Canolbwyntir ar sawl maes o dan y themâu hyn gan gynnwys canfod cyffuriau, lled-ddargludyddion cyfansawdd, adnoddau ynni ac ymchwil ffotofoltäig. Mae meysydd newydd yn cael eu hastudio hefyd, gan gynnwys ymchwil ym maes ynni niwclear ac ymchwilio i glefydau niwro-ddirywiol a dementia, ac mae'r cyfan yn seiliedig ar gryfderau ymchwil gyfredol neu ar fanteisio ar gyfleoedd economaidd newydd.

Mae Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 Llywodraeth y DU (HERA 2017) yn cyflwyno newidiadau mawr i'r dulliau o ariannu ymchwil yn y DU a Lloegr drwy greu corff newydd, Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Amcan y newidiadau hyn yw sicrhau bod gwaith ymchwil ac arloesi yn y DU yn fwy ymatebol i strategaeth genedlaethol gyffredinol y DU o safbwynt anghenion yr economi, diwydiant, iechyd a llesiant.

Drwy'r Comisiwn, mae'n rhaid i ni allu ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar lefel y DU drwy greu cyfrwng i ymgysylltu a chydweithio ag UKRI ar ran Cymru. Ni wnaeth adroddiad Hazelkorn drafod y mater o lywodraethu ymchwil yn benodol, ond roedd yn cydnabod bod hwn yn faes arbenigol y mae angen ei drafod fel gweithgaredd ar wahân.

Mae'r system ddeuol o gyllido ymchwil mewn SAB yn cael ei hystyried yn hollbwysig i sylfaen ymchwil y DU sydd gyda'r gorau yn y byd. Mae'r system ddeuol yn cynnwys cyllid sy'n cael ei ddyfarnu yn dilyn cystadleuaeth, a reolir gan Gynghorau Ymchwil y DU, a chyllid grant craidd neu floc cysylltiedig ag ansawdd sy'n cael ei ddosbarthu gan y Cynghorau Cyllido Addysg Uwch (CCAUC yng Nghymru) ar sail perfformiad sefydliadau yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Bydd HERA 2017 yn diogelu'r dull cymorth deuol hwn

---

[32] *Yr Athro John Goddard, Reinventing the Civic University (NESTA), 2009*

sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer y dyfodol ar sail gyfreithiol. Serch hynny, gall HERA 2017 arwain at beryglon cysylltiedig ar gyfer Cymru:

- gall y gwahaniaeth rhwng cyllid ymchwil cysylltiedig ag ansawdd (yn Lloegr) a chyllid y Cyngor Ymchwil ac Innovate UK ledled y DU fynd yn aneglur, a gall y ffrydiau cyllido deuol ar lefel strategol arwain at ddryswch a allai roi prifysgolion Cymru o dan anfantais;
- bydd Research England yn ymgysylltu ag UKRI ym maes datblygu strategol, ond ni fydd hyn yn digwydd yng Nghymru nac yn y llywodraethau datganoledig eraill; a
- gallai cyllid gael ei dargedu fwyfwy at nifer llai o brifysgolion blaenllaw, yn enwedig prifysgolion y 'Triongl Aur' (Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt) a phrifysgolion 'Pwerdy Gogledd Lloegr', fel y'u nodwyd gan Archwiliadau Gwyddoniaeth ac Arloesi BIS yn ddiweddar.

Yn ôl adroddiad Hazelkorn:

*"O ystyried pwysigrwydd strategol ymchwil, mae angen dybryd am werthusiad wedi'i dargedu o allu ac adnoddau ymchwil."* [33]

Mae llawer o dystiolaeth yn dangos bod ymchwilwyr Cymru yn gweithredu ar lefel uchel ond bod prinder ymchwilwyr mewn meysydd allweddol. Mae adroddiadau diweddar gan Halligan a Bright[34], Elsevier[35] a REF 2014[36] yn tynnu sylw at ansawdd yr ymchwil mewn SAU yng Nghymru, ond maent yn dangos hefyd bod capasiti ymchwil yng Nghymru ar hyn o bryd yn llai nag yng ngweddill y DU. Yn ôl y dystiolaeth, mae angen 620 o ymchwilwyr ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth ledled Cymru. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 31 Ionawr 2017 y bydd yr Athro Graham Reid yn cynnal adolygiad o ymchwil ac arloesi. Disgwylir iddo gyhoeddi ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2017.

Cynigiwyd y byddai'r Comisiwn newydd, gan weithredu fel corff hyd braich sy'n atebol i Weinidogion Cymru, yn gyfrifol am gydgysylltu cyllid ar gyfer capasiti ymchwil cysylltiedig ag ansawdd ac ymchwil ôl-radd mewn ffordd fwy strategol a dynamig. Byddai hefyd yn gyfrifol am sicrhau cyfatebiaeth â mathau eraill o gyllid capasiti ymchwil a ddyfernir yn dilyn cystadleuaeth (e.e. Sêr Cymru) yn unol â strategaeth genedlaethol. Byddai hyn yn cynnwys mathau eraill o gyllid ymchwil perthnasol a ffrydiau cyllid capasiti ymchwil eraill a ddyfernir i'r Comisiwn gan Lywodraeth Cymru, fel cyllid doethuriaeth (ac eithrio cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru efallai, ond byddai'n gweithio'n agos gyda'r sefydliad hwn i gydgysylltu cyllid ymchwil ategol).

Rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth i sefydlu'r Comisiwn ddarparu ar gyfer sefydlu pwyllgor o'r enw **Ymchwil ac Arloesi Cymru** hefyd. Diben y pwyllgor hwn fyddai goruchwylio a chydgysylltu gwariant ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru sy'n cael ei roi i'r Comisiwn gyda'r nod o greu amgylchedd trosglwyddo ymchwil, arloesi a gwybodaeth mwy dynamig ac ymatebol i anghenion yng Nghymru. Byddai'n cael ei sefydlu fel pwyllgor y Comisiwn, a byddai'n cynnwys arbenigwyr ym meysydd ymchwil ac arloesi a rhai o aelodau'r Comisiwn. Caiff swyddogaethau penodol y pwyllgor eu pennu yn y ddeddfwriaeth. Byddai'r pwyllgor yn atebol i Weinidogion Cymru drwy Gyngor y Comisiwn, ond byddai

[33] http://gov.wales/docs/dcells/publications/160310-hazelkorn-report-en.pdf
[34] The Case for Growing STEMM Research Capacity in Wales', Yr Athro Peter Halligan; Dr Louise Bright, cyhoeddwyd gan y Leadership Foundation for Higher Education, mis Mai 2015;
[35] International Comparative Performance of the Welsh Research Base 2013 – Adroddiad a baratowyd gan Elsevier ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014)
[36] Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil REF 2014, cyhoeddwyd tua diwedd 2014.

angen iddo gyhoeddi strategaeth ar wahân yn nodi ei gynlluniau i gryfhau rhagoriaeth ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Hefyd, byddai'n adrodd bob blwyddyn i Gyngor y Comisiwn ar ei berfformiad yn erbyn deilliannau targed y cytunir arnynt. Byddai Cyngor y Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a gweithgareddau'r pwyllgor yn cyd-fynd yn llawn â nodau strategol cenedlaethol.

Rydym yn cynnig y nodweddion canlynol ar gyfer y pwyllgor:

- dylai fod â hunaniaeth a chylch gwaith clir a'r rhyddid i weithredu yn y Comisiwn yn unol â chyfeiriad cyffredinol Cynllun Strategol y Comisiwn;
- dylai gael ei gydnabod ledled y DU fel llais ac arweinydd cyllid ymchwil ac arloesi yng Nghymru;
- dylai allu amddiffyn hunaniaeth, uniondeb a buddiannau ymchwil ac arloesi yng Nghymru;
- dylai fod â strwythur llywodraethu, llywio a rheoli ar wahân yn y Comisiwn, a bod yn atebol i brif Fwrdd y Comisiwn;
- byddai'n ystyried strategaethau Llywodraeth Cymru ynghyd â blaenoriaethau economaidd, iechyd a llesiant cymdeithasol, diwydiannol, amgylcheddol a blaenoriaethau eraill, fel y'u diffinnir yng Nghynllun Strategol y Comisiwn y cytunir arno gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru;
- byddai'n atebol, drwy'r Comisiwn, i Weinidogion Cymru am ledaenu, defnyddio, monitro a pherfformiad cyllid ymchwil ac arloesi o bob math, ac am gyllid cysylltiedig (e.e. ymchwil ôl-radd) y mae'n gyfrifol amdano;
- dylai sefydlu dau lwybr cyllido ar wahân: a) cyllid ymchwil (ac arloesi) cysylltiedig ag ansawdd heb ei neilltuo sy'n seiliedig ar berfformiad REF; a b) cyllid ymchwil ac arloesi cysylltiedig â strategaeth sydd wedi'i neilltuo, a ddyfernir ar sail haeddiant cystadleuol yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru y cytunir arnynt yng Nghynllun Strategol y Comisiwn;
- byddai'n rhaid iddo ystyried a gwarchod egwyddor a chydbwysedd elfennau'r system gyllido ddeuol o gyllid cysylltiedig ag ansawdd heb ei neilltuo, a chyllid ymchwil ac arloesi cysylltiedig â strategaeth wedi'i neilltuo;
- byddai'n cydgysylltu cyllid ymchwil ac arloesi cysylltiedig â strategaeth a mathau eraill o gyllid ymchwil ac arloesi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i'r Comisiwn, ac yn eu cyfuno o dan strategaeth gyffredin ar y cyd;
- dylai nodi a mynegi'r amcanion strategol cenedlaethol, diffinio'r hyn y gellir ei gyflawni a phennu targedau, dyfarnu cyllid, a monitro ac archwilio deilliannau yn erbyn targedau;
- dylai ymgysylltu a chydweithio'n agos â darparwyr cyllid ymchwil ac arloesi eraill y Llywodraeth Cymru (h.y. cyllid ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru nad yw'n cael ei ddarparu drwy'r Comisiwn, er enghraifft cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru), UK Research & Innovation (UKRI), ac ymgysylltu â Research England ar weithgareddau cyffredin fel REF;
- byddai'n canolbwyntio ar ehangu capasiti, gallu a seilwaith ymchwil ac arloesi (pobl, cyfarpar, labordai a sefydliadau) yn y sectorau AU, AB, RTO (Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg) a sefydliadau diwydiannol yn y sector preifat; a
- byddai'n sbarduno newid ymddygiad mewn SAU, SAB a sefydliadau eraill fel sy'n briodol.

Mae'r Athro Graeme Reid yn cynnal adolygiad o ymchwil ac arloesi yng Nghymru a ariennir gan y llywodraeth. Mae'n bwriadu adrodd yn ôl erbyn diwedd 2017 gydag argymhellion ar ddatblygu ymchwil ac arloesi yng Nghymru yn y dyfodol.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu pwyllgor o'r Comisiwn â'r teitl Ymchwil ac Arloesi Cymru?**

**Ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru weithredu yn unol â'r hyn a nodir uchod er mwyn datblygu capasiti a gallu ymchwil ac arloesi yng Nghymru?**

*Ehangu mynediad a chyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol*

Pan fydd cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch yng Nghymru yn cyflawni eu swyddogaethau, dylent roi sylw dyledus i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[37]. Mae'n rhaid[38] i'r cyfryw sefydliadau gyhoeddi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi eu hamcanion cydraddoldeb, eu camau gweithredu i gyflawni'r amcanion, yr amserlen ar gyfer cyflawni pob amcan a sut maent yn bwriadu monitro cynnydd ac effeithiolrwydd y camau. Wrth sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, mae gennym gyfle i ddatblygu'r gwaith rhagorol sydd eisoes wedi'i wneud i ehangu mynediad dysgwyr i'r holl agweddau ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried beth arall y gellir ei wneud i alluogi dysgwyr i fanteisio ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn enwedig os ydynt o dan anfantais sylweddol neu os ydynt yn perthyn i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Er bod y niferoedd sy'n cyfranogi mewn addysg uwch llawn amser wedi cynyddu dros y degawd diwethaf (2006/07 – 2015/16), mae yna wahaniaethau amlwg mewn cyfraddau cyfranogi ledled Cymru, ar lefel israddedig ac ôl-radd. Mae cyfraddau cyfranogi israddedig llawn amser wedi bod yn isel yn gyson mewn ardaloedd awdurdodau lleol sydd â chyfraddau uwch o amddifadedd economaidd-gymdeithasol[39]. Er enghraifft, roedd y gyfradd gyfranogi gyfartalog ym Mlaenau Gwent ymysg yr isaf, tra bod y gyfradd yn Sir Fynwy ymysg yr uchaf dros yr un cyfnod. Mae tueddiadau tebyg yn amlwg yn y sector ôl-radd, ac mae ardaloedd o Gymru sydd â lefelau incwm is yn tueddu i fod â llai o ôl-raddedigion fesul myfyriwr israddedig o gymharu ag ardaloedd mwy cyfoethog. Er enghraifft, mae tua dwywaith yn fwy o ôl-raddedigion fesul myfyriwr israddedig llawn amser yng Nghaerdydd a Cheredigion nag ym Merthyr a Sir Benfro. Yn wahanol i addysg lawn amser, mae'r cyfraddau cyfranogi mewn addysg uwch rhan-amser wedi lleihau dros y degawd diwethaf. Hefyd, mae rhai gwahaniaethau amlwg yng nghyfraddau myfyrwyr israddedig rhan-amser, gyda chyfraddau uwch mewn ardaloedd sydd â lefelau incwm is. Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd bron i 6 o bob 10 myfyriwr a ddechreuodd gwrs israddedig yn 2015/16 yn astudio'n rhan-amser, tra bod 3 o bob 10 myfyriwr israddedig yn astudio'n rhan-amser yn Sir Fynwy. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad i addysg uwch, gan gynorthwyo myfyrwyr israddedig i symud ymlaen i gyrsiau ôl-radd a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i astudio'n rhan-amser. Roedd hyn yn un o brif ystyriaethau Adroddiad Diamond, y cyfeirir ato uchod.

[37] Mae Atodlen19 Rhan 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach sy'n cael eu cynnwys, yn unol ag ystyr adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992.

[38] o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

[39] Fel y dangosir gan ddadansoddiad o ddata'r Awdurdod Safonau Addysg Uwch a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005/6 i 2015/16

Mae'r cyfraddau cyfranogi mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn wahanol iawn i gyfraddau cyfranogi mewn addysg uwch, ac yn amrywio ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae'r cyfraddau cyfranogi mewn addysg bellach yn uwch mewn ardaloedd awdurdodau lleol sydd â chyfraddau uwch o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, yn enwedig ymysg y grŵp oedran 16-24. Mae'r un peth yn wir am y cyfraddau cyfranogi mewn dysgu seiliedig ar waith. Fodd bynnag, mae cyfraddau cyfranogi ymhlith y rheini dros 25 oed yn dangos cysylltiad mwy amlwg ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb a fyddai'n elwa ar y profiad ac sy'n dymuno astudio ar lefel addysg uwch – waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol ac economaidd. Byddwn yn sefydlu system cymorth i fyfyrwyr flaengar a chynaliadwy mewn ymateb i Adolygiad Diamond er mwyn cefnogi'r ymrwymiad hwn.

Er bod dysgwyr sy'n dewis dilyn cwrs addysg uwch yn derbyn cymorth gan y Llywodraeth ar ffurf benthyciadau a grantiau, mae gofyn iddynt wneud buddsoddiad ariannol sylweddol yn eu haddysg. Bu trefniadau ar waith ers dros ddegawd i sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn gwario rhywfaint o'u hincwm o ffioedd myfyrwyr ar fesurau i annog a chefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i addysg uwch, yn enwedig dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector addysg uwch.

O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015), mae'n rhaid i bob un o'r darparwyr addysg uwch sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig yn gyrsiau sy'n derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr ymrwymo i weithgareddau a buddsoddiadau sy'n helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch a hyrwyddo addysg uwch. Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch gyflwyno'r gweithgareddau a'r buddsoddiadau hyn mewn cynlluniau ffioedd a mynediad sy'n cael eu cyflwyno i CCAUC ar gyfer eu cymeradwyo. Yn y cyd-destun hwn, mae hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch, yn ymwneud â dileu rhwystrau posibl i addysg uwch sy'n wynebu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr i aros a llwyddo yn y sector addysg uwch.

Mae sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn cydweithio fel aelodau o **Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach** yng Nghymru. Sefydlodd CCAUC y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn 2002 fel rhaglen hirdymor ledled Cymru i chwalu'r rhwystrau canfyddedig ac ehangu mynediad i addysg uwch a sgiliau lefel uwch. Mae'r rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach yn anelu at gynyddu cyfranogiad grwpiau a chymunedau a dargedwyd yng Nghymru drwy godi dyheadau a sgiliau addysgol a chreu cyfleoedd astudio a llwybrau dysgu arloesol i addysg uwch.

Un o argymhellion Adroddiad Diamond yw'r ffaith fod angen darparu cyllid i CCAUC er mwyn hyrwyddo newid mewn meysydd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ehangu mynediad. Yn ôl yr Adolygiad: *'mae yna achos cryf o blaid cyllid, a hynny ar y cyd â darparwr AU neu gonsortia o ddarparwyr AU, i hyrwyddo a chymell codi dyheadau ac agweddau cymdeithasol ar ehangu mynediad.'* [40]

Mae addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cynnig cyfleoedd pwysig i bobl o bob cefndir i gyfranogi mewn addysg a llwyddo. Mae hyn yn cynnwys AB, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned, gan roi 'ail gyfle' i bobl ifanc ac oedolion nad ydynt wedi llwyddo yn yr ysgol o bosibl, neu i'r rheini y mae angen iddynt ddatblygu sgiliau newydd i gael swydd ac aros mewn swydd. Mae'r ddarpariaeth hon yn eang iawn, ac yn cynnwys darpariaeth lefel mynediad ar gyfer y rheini sy'n gadael yr ysgol, cyrsiau llythrennedd a

[40] http://gov.wales/docs/dcells/publications/160927-he-review-final-report-cy.pdf

rhifedd i oedolion, a mynediad i gymwysterau a sgiliau lefel uwch. I rai o'r dysgwyr hyn, mae datblygu hyder a chymhelliant lawn mor bwysig ag ennill cymwysterau ffurfiol.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth helaeth ar bob lefel, mae Colegau Addysg Bellach a lleoliadau Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol yn derbyn cyllid Amddifadedd Addysgol i recriwtio, ennyn diddordeb a sicrhau llwyddiant dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd addysgol yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn seiliedig ar barth Addysg Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ac mae'n cynorthwyo dysgwyr ar bob lefel o ddarpariaeth ac yn darparu bron i £17 miliwn o gymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu amddifadedd addysgol.

Fel rhan o'u hamodau cyllido, mae'n rhaid i sefydliadau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ddatblygu polisïau cydraddoldeb sy'n sicrhau nad yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig o dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Er mwyn cynorthwyo'r rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith i gynllunio eu strategaethau a rhoi eu cynlluniau gweithredu ar waith, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Y nod yw sicrhau bod mwy o grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn dilyn prentisiaethau, a chyflwyno newid diwylliant drwy'r rhaglen sy'n hyrwyddo amrywiaeth. Hefyd, mae camau gweithredu penodedig, ar y cyd â sefydliadau arbenigol eraill fel Remploy, yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r rhwystrau i'r rhaglen Brentisiaethau sy'n wynebu'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae arolygiadau Estyn yn ystyried cynnydd a deilliannau grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig a grwpiau â nodweddion gwarchodedig, ac mae data meincnodi ar gael i helpu darparwyr dysgu i fesur a chymharu cyfraddau llwyddiant ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith dadansoddi ac ymchwil i ddeall y deilliannau ar gyfer dysgwyr o bob cefndir a sicrhau bod gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynghori'r dysgwyr hyn a'u cynorthwyo i gyrraedd eu potensial llawn.

**Cwestiynau:**

**Pa gamau, os o gwbl, sydd angen eu cymryd i hyrwyddo rhagor o gyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn enwedig ymysg unigolion o grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?**

**Sut y gallwn sicrhau bod mwy o fyfyrwyr sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn aros ar gyrsiau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac yn eu cwblhau?**

*Mesur effaith*

Mae Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi buddsoddi'n helaeth mewn gweithgareddau i ddileu rhwystrau i addysg ac annog unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddechrau cyrsiau addysg a'u cwblhau yn llwyddiannus. Sut rydym yn gwybod bod y gweithgareddau hyn yn cael effaith? Sut gallem nodi'r ymyraethau mwyaf manteisiol ym mhob cam o daith y dysgwr?

Byddwn yn ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i ennyn dealltwriaeth well o daith dysgwyr a'u datblygiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a thu hwnt. Byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar ddatblygiadau o ran rhannu data, gan ganolbwyntio ar ddewisiadau

a phenderfyniadau dysgwyr, er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu polisi i ehangu mynediad.

Rydym eisoes wedi cyflwyno set ddata gyfatebol flynyddol sy'n cysylltu data ar ddisgyblion ysgol, AB, dysgu seiliedig ar waith, AU ac arholiadau er mwyn creu darlun cyffredinol o nodweddion dysgwyr, rhaglenni a deilliannau. Bydd y set ddata hon yn sylfaen ar gyfer mesur datblygiad a chyrchfannau addysgol (gan gynnwys deilliannau sy'n gysylltiedig â nodweddion dysgwyr, fel cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, statws plentyn sy'n derbyn gofal a chyrhaeddiad blaenorol). Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gymryd rhan mewn Astudiaeth Hydredol o Ddeilliannau Addysgol, sy'n cysylltu cofnodion addysg â chofnodion cyflogaeth, enillion a budd-daliadau. Gyda'i gilydd, bydd y trefniadau hyn yn golygu bod modd cyflwyno mesurau cyrchfannau cadarn a rhaglen i ymchwilio i ba mor effeithiol yw addysg a hyfforddiant ôl-orfodol o ran helpu dysgwyr i sicrhau deilliannau cadarnhaol, cynaliadwy.

Byddwn yn ystyried a oes angen gosod dyletswydd ar ddarparwyr addysg bellach ac addysg uwch i gyhoeddi data ar gyfraddau ymgeisio, derbyn a chynnydd myfyrwyr ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol, a chyflwyno'r data i'r Comisiwn. Byddwn yn ystyried sut rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau derbyn canolog cyffredin (fel UCAS) fel bod modd defnyddio'r data perthnasol sydd ganddynt i helpu i ddatblygu gweithgareddau i ehangu mynediad.

**Cwestiynau:**

**Sut y gellir cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ehangu mynediad ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?**

**A ddylid gosod dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i gyhoeddi data ar gyfraddau ymgeisio, derbyn a chynnydd myfyrwyr ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol, a chyflwyno'r data i'r Comisiwn?**

*Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Cyfrwng Cymraeg*

Mae darparu cyfleoedd i unigolion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn un o'r blaenoriaethau allweddol i sicrhau bod sgiliau Cymraeg pobl ifanc a ddysgir mewn ysgolion yn cael eu cadw a'u datblygu i'w defnyddio mewn swyddi yn y dyfodol. Mae'r gweithgaredd hwn yn cefnogi amcan Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011 i ddarparu goruchwyliaeth, cyfeiriad strategol a chymorth annibynnol ar gyfer datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gweithgareddau'r Coleg a gwneud argymhellion ynglŷn â'i weithgareddau yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith, gofynnwyd i'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried a ddylai cylch gwaith y Coleg ymestyn i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac, os felly, gofynnwyd iddo gynnig dewisiadau posibl ar sut i wneud hyn. Rhagwelir y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cyflwyno ei adroddiad a'i argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ystod haf 2017.

Byddwn yn ystyried argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen wrth sefydlu'r Comisiwn newydd ac yn sicrhau ei fod yn cefnogi gweledigaeth y Llywodraeth i greu tair miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r strategaeth gysylltiedig.

*Y berthynas â rheoleiddwyr a chyrff perthnasol eraill yn y DU*

Bydd angen i'r Comisiwn newydd weithio gydag amrywiaeth o gyrff yng Nghymru a'r DU sy'n cyfrannu at y gwaith o reoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Yn y cyswllt hwn, canolbwyntir ar gyrff y bydd angen meithrin perthynas statudol â nhw. Fodd bynnag, bydd angen i'r Comisiwn ddatblygu perthynas waith effeithlon ac effeithiol ag amrywiaeth eang o gyrff. Bydd gan amryw o'r cyrff hyn eu swyddogaethau statudol eu hunain i ddarparu gwasanaethau sy'n sylfaen i waith y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a'r broses o'i reoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft: awdurdodau cyllido addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ledled y DU, Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, y Cyfrin Gyngor, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Cymwysterau Cymru, Gyrfa Cymru, y Cynghorau Sgiliau Sector, Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, y Gwasanaeth Derbyniadau i Brifysgolion a Cholegau (UCAS) a Unistats.[41]

Rydym yn rhagweld y bydd perthynas waith y Comisiwn â chyrff eraill yn cael ei ffurfioli mewn memoranda cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau lefel gwasanaeth lle bo hynny'n briodol. Hefyd, bydd angen i'r Comisiwn newydd ymgysylltu â chyrff cynrychioladol gan gynnwys UCM Cymru, Colegau Cymru, Prifysgolion Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ac undebau staff ac addysgu.

Ar hyn o bryd, gall CCAUC weithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) a Chyngor Cyllido'r Alban i gyflawni eu swyddogaethau ar y cyd o dan drefniant gwirfoddol os yw'n ymddangos iddynt y byddai'n fwy effeithlon gwneud hynny, neu eu galluogi i gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau yn fwy effeithiol. Gall cydweithio o'r fath fod yn fanteisiol o safbwynt y llif o fyfyrwyr sy'n croesi ffiniau, cydweithio ar weithgareddau ymchwil a gweithredu ar lefel y DU i gynnal ansawdd safonau addysg uwch. Bydd HEFCE yn cael ei ddileu yn y dyfodol, a bydd rhai o'i swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i'r Swyddfa i Fyfyrwyr (OfS) ac i Research England, Cyngor Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI). Mae Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn cynnwys darpariaeth i alluogi CCAUC i gyflawni ei swyddogaethau ar y cyd â'r OfS ac UKRI (mewn perthynas â'r swyddogaethau sy'n ymarferadwy gan *Research England*) pe bai gwneud hynny'n ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithlon neu effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai angen i'r Comisiwn weithio gyda'r OfS, UKRI a Chyngor Cyllido'r Alban.

*Lleoliadau chweched dosbarth*

Pwysleisiodd adroddiad Hazelkorn fod angen gwella'r broses o gydlynu'r system addysg, yn enwedig felly'r sector ôl-orfodol. Mae addysg chweched dosbarth yn elfen arwyddocaol a hanfodol o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Bob blwyddyn, mae bron i hanner y bobl ifanc 16 oed sy'n parhau mewn addysg llawn amser yn astudio mewn lleoliadau chweched dosbarth.

[41] Mae Atodiad B yn cynnwys geirfa'r sefydliadau hyn

Gwyddom fod partneriaethau cryf ar waith rhwng darparwyr dysgu mewn rhai ardaloedd o Gymru, sy'n helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn derbyn y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i ddewis y llwybr dysgu priodol a symud ymlaen i addysg uwch a chyflogaeth. Mae rhwydwaith Seren, sy'n cynorthwyo dysgwyr sy'n alluog yn academaidd i symud ymlaen i brifysgolion detholus, yn enghraifft o ba mor effeithiol y mae'r trefniadau hyn yn gallu bod. Fodd bynnag, mae cystadleuaeth ac aneffeithlonrwydd mewn mannau eraill. Mae'r Comisiwn yn cael ei greu er mwyn gwella'r gwaith o gydlynu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru, ac mae'n anodd rhagweld sut y bydd hyn yn digwydd heb sicrhau integreiddio agos â darpariaeth chweched dosbarth – ac â'r system ysgolion yn ei chyfanrwydd.

Fodd bynnag, mae darpariaeth chweched dosbarth yn rhan annatod o ysgolion ac o gylch gwaith gwella ysgolion consortia addysg rhanbarthol yn hytrach nag yn endid ar wahân. Byddai cynnwys darpariaeth chweched dosbarth yng nghylch gwaith y Comisiwn yn creu heriau i ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia, gyda'r posibilrwydd y bydd systemau llywodraethu a threfniadau monitro yn gorgyffwrdd. Yn ei dro, gallai hyn gynyddu biwrocratiaeth a llwyth gwaith ysgolion. Yn ogystal, mae perygl y gallai natur gymhleth addysg gynyddu yn hytrach na lleihau, ac y byddai'r ffiniau'n aneglur. Mae'n bosibl y byddai addysg ôl-16 yn cael ei chydlynu'n well ond y byddai'r gwrthwyneb yn digwydd wrth i ddysgwyr drosglwyddo o addysg orfodol i addysg ôl-orfodol. Nid oes unrhyw atebion syml i'r cyfyng-gyngor hwn.

Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â darpariaeth chweched dosbarth a'r Comisiwn, mae angen ystyried nifer o faterion ymarferol:

- y fframwaith cynllunio a chyllido cyffredin wedi'i hen sefydlu sy'n gweithredu ar draws y ddarpariaeth chweched dosbarth ac AB, sy'n sicrhau bod set gydlynol o raglenni dysgu ar waith sy'n cael eu cyllido'n gyson a'u cynllunio i ddiwallu anghenion lleol;
- datblygu mesurau perfformiad cyson ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth a'r sector AB. Rydym newydd gwblhau ymgynghoriad[42] ar y mesurau arfaethedig sydd wedi dangos cefnogaeth gyffredin i'r cysyniad o fesur deilliannau dysgwyr mewn ffordd gyson; mae ysgolion a cholegau yn credu ei bod yn hen bryd gwneud hyn, ac maent yn gofyn am ddull gweithredu teg a thryloyw ym mhob lleoliad;
- awydd Gweinidogion i wella canlyniadau Safon Uwch, sy'n gofyn am gynllun cydlynol ar draws lleoliadau chweched dosbarth (sy'n gyfrifol am 70% o ddarpariaeth Safon Uwch) ac AB (30% o ddarpariaeth);
- gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr ôl-16 drwy rwydweithiau 14-19, canolfannau Seren a dulliau eraill;
- yr angen i gynllunio darpariaeth mewn ffordd gydlynol er mwyn osgoi dyblygu a bylchau; a
- cyfrifoldebau'r Comisiwn a'r consortia addysg i gefnogi gwelliant a threfniadau ar gyfer cydweithio.

Hefyd, mae'n bwysig cofio y byddai'n anodd iawn i'r Comisiwn integreiddio holl elfennau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn un sector. Byddai'r broses o gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn y sector hwn yn creu heriau ychwanegol, ac un dewis posibl yw integreiddio'r sector heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn y dechrau, cyn mynd ati i'w chynnwys yn ddiweddarach. Byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu ar ôl i'r newidiadau gael eu sefydlu. Wedyn, byddai modd cynnwys darpariaeth chweched dosbarth yng nghylch gwaith y Comisiwn pe bai hynny'n arwain at fanteision clir.

---

[42] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/mesurau-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-yng-nghymru

**Cwestiynau:**

**A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a monitro darpariaeth chweched dosbarth? Os felly, beth yw eich rhesymau?**

**A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn gyflawni unrhyw swyddogaeth arall mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft, cofrestru darparwyr, sicrhau a gwella ansawdd, a llywodraethu? Os felly, nodwch eich rhesymau.**

**A ydych chi'n credu y byddai'n well sefydlu'r Comisiwn heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn ei gylch gwaith, gyda'r opsiwn o wneud hynny'n ddiweddarach?**

## RHEOLI'R BERTHYNAS RHWNG Y COMISIWN A DARPARWYR

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd. Mae'r naill egwyddor a'r llall yn hanfodol mewn unrhyw ddemocratiaeth fodern. Hefyd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu diogelu. I wneud hyn, mae angen cael sicrwydd ynglŷn â sefyllfa ariannol a llywodraethu da sefydliadau, yn ogystal â sicrwydd bod dysgwyr yn cael addysg a hyfforddiant priodol o ansawdd uchel. Mae atebolrwydd am arian y trethdalwyr yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig ar adeg pa fo adnoddau mor brin. Felly, byddem yn disgwyl i ddarparwyr gyfrannu at y gwaith o wireddu blaenoriaethau cenedlaethol, ac os penderfynir mai cytundebau deilliannau yw'r dewis gorau, gallent ddarparu'r fframwaith ar gyfer hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r system fod yn ddigon hyblyg i gefnogi'r amrywiaeth lawn o gyfleoedd dysgu.

Bwriedir i'r Comisiwn newydd sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cefnogi sefydliadau cryf, ymreolaethol a darparu atebolrwydd priodol ar gyfer arian y trethdalwyr drwy'r mesurau diogelu y mae gan ddysgwyr hawl iddynt. Fodd bynnag, i wneud hyn mae angen meddwl yn ofalus am natur y berthynas rhwng y Comisiwn a'r ystod lawn o ddarparwyr dysgu. Mae angen mecanwaith a fydd yn llwyddo i feithrin perthynas gefnogol ac adeiladol, ac a fydd yn sicrhau bod y Comisiwn yn gallu diogelu buddiannau dysgwyr ynghyd â'r cyllid y mae darparwyr dysgu'n ei gael gan y llywodraeth.

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno tri model posibl ar gyfer y berthynas hon, gan nodi manteision ac anfanteision pob un a chwestiynau i'w hystyried. Mae'r ail a'r trydydd model yn cynnwys dulliau cyllido hefyd. Felly, os ydym yn dewis y model cyntaf, bydd angen ystyried y model cyllido y dylai fod yn ei le, ac a fyddai'n briodol cyfuno'r model cyntaf â'r ail neu'r trydydd model. Pa bynnag ddull sy'n cael ei ddefnyddio i reoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr, byddai angen i ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol y Cynllun Strategol.

*1. Y Model Cofrestru Darparwyr.*

Gallai'r Comisiwn newydd gyflwyno system gofrestru i sicrhau cysondeb rhwng yr holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Byddai'n gweithredu fel porth y mae'n rhaid i sefydliadau gofrestru ar ei gyfer er mwyn derbyn cymorth drwy gyllid cyhoeddus. Byddai telerau ac amodau cofrestru darparwyr yn gymesur â lefel y ffioedd sy'n cael eu codi ar gyfer cyrsiau a/neu'r cyllid sy'n cael ei dderbyn gan y llywodraeth, yn ogystal â nifer y myfyrwyr sy'n mynychu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall rhai darparwyr fod yn gyfrifol am ddarpariaeth a allai olygu eu bod yn perthyn i fwy nag un categori cofrestru, a byddai angen ystyried hyn. Byddai'r system o gofrestru darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cynnwys y categorïau canlynol:

- Darparwyr Cofrestredig
- Darparwyr Ardystiedig
- Darparwyr Cydnabyddedig

(1) Darparwyr Cofrestredig.

Rydym yn disgwyl y bydd y Darparwyr Cofrestredig yn SAU ac yn SAB yn bennaf, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ac yn derbyn cyllid cyhoeddus, neu sydd â myfyrwyr sy'n gymwys i gael cymorth gan Lywodraeth Cymru. Pe bai'r darparwyr hyn yn dymuno derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer eu darpariaeth addysg a hyfforddiant, byddai angen iddynt gofrestru gyda'r Comisiwn. Byddai hyn yn cynnwys darparwyr sy'n dymuno darparu rhai cyrsiau sy'n gymwys i dderbyn rhywfaint o gyllid cyhoeddus. Byddai'r Comisiwn

yn gyfrifol am reoleiddio darparwyr cofrestredig. Gan y byddai'r darparwyr hyn yn derbyn y lefelau uchaf o gyllid cyhoeddus, byddent yn gorfod cydymffurfio â'r amodau cofrestru mwyaf llym. Gan y byddai'r broses gofrestru yn gynhwysfawr, gallai'r amserlenni gofynnol ar gyfer ailgofrestru darparwyr fod yn hirach na chategorïau cofrestru eraill.

(2) Darparwyr Ardystiedig

Byddai'r categori hwn yn cynnwys darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn bennaf, neu ddarparwyr eraill sy'n derbyn cyllid cyhoeddus drwy ddarpariaeth wedi'i chontractio yn unig. Mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith eisoes yn cydymffurfio â phroses gaffael fanwl iawn a mesurau rheoli contractau. Oherwydd hyn, ni fyddai angen iddynt ddyblygu'r gwaith hwn drwy gwblhau proses gofrestru drylwyr. Fodd bynnag, er mwyn cael eu hardystio, byddent yn gorfod cydymffurfio â phroses reoleiddio lai manwl, a allai gynnwys telerau ac amodau cyllido a orfodir gan y Comisiwn. Byddai hyn yn adlewyrchu lefel y cyllid cyhoeddus sy'n cael ei roi i ddarparwyr, a gallai'r Comisiwn fynd ati'n fwy rheolaidd i ofyn am sicrwydd bod darparwyr yn bodloni'r amodau a'r telerau o'i gymharu â darparwyr sydd wedi'u cofrestru'n llawn.

(3) Darparwyr Cydnabyddedig

Gallai hyn gynnwys darparwyr addysg neu hyfforddiant nad oes angen iddynt gofrestru gyda'r Comisiwn oherwydd eu bod yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol mewn ffordd arall yng Nghymru. Gallent gynnwys darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned awdurdodau lleol, a lleoliadau chweched dosbarth o bosibl, os ydynt yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith y Comisiwn. Fodd bynnag, byddai perthynas o ryw fath yn bodoli rhwng y Comisiwn a'r darparwyr hyn, oherwydd y byddai gan y Comisiwn drosolwg o'r sector cyfan, a byddai'n hyrwyddo cydweithio rhwng y darparwyr hyn ac eraill ac yn gweithio gyda nhw ar faterion fel diogelu buddiannau dysgwyr a sicrhau mynediad i ddysgwyr.

Yn y dyfodol, gall gwahaniaethu ar sail cymhwyster a phwerau dyfarnu gryfhau'r broses reoleiddio os oes angen cynyddu hyder y cyhoedd neu amddiffyn buddsoddiad cyhoeddus. Byddai gwahaniaethu rhwng mathau o ddarparwyr a lefel y rheoleiddio sy'n berthnasol iddynt yn galluogi'r Comisiwn i reoli risgiau ariannol ac o ran perfformiad ac enw da yn fwy effeithiol, gan roi sylw dyledus i natur y ddarpariaeth sy'n cael ei rheoleiddio.

Un o amcanion pennaf system gofrestru fyddai diogelu buddiannau myfyrwyr a hyfforddeion. Felly, byddai angen sicrhau bod meini prawf craidd penodol yn sylfaen i'r broses gofrestru - sef, darparu gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael a'u hansawdd; y gost o fynychu'r sefydliad; mynediad i weithdrefnau cwyno; a darpariaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys dysgwyr anabl.

Manteision posibl y model hwn:

- byddai'r system gofrestru yn galluogi'r Comisiwn i fabwysiadu agwedd at reoli perfformiad a risg sy'n sensitif i'r gwahaniaethau rhwng y mathau o ddarparwyr a hyfforddiant, gan sicrhau bod modd diogelu budd y cyhoedd a buddiannau dysgwyr;
- byddai modd sicrhau bod rhestr o ddarparwyr a'u statws ar gael i'r cyhoedd. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth am ddarparwyr ar gyfer darpar ddysgwyr ynghyd â sicrwydd eu bod yn ddiffuant.

Anfanteision posibl y model hwn:

- gall cynlluniau cofrestru amgen atgyfnerthu'r gwahaniaethau rhwng mathau o ddarparwyr, gan danseilio ymdrechion i hyrwyddo cydweithio ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol er budd dysgwyr;
- gall lefelau cofrestru gwahanol beri dryswch os yw un darparwr yn darparu rhywfaint o ddysgu sy'n gysylltiedig â chofrestriad llawn a rhywfaint o ddarpariaeth sy'n gysylltiedig ag ardystio. Un enghraifft bosibl yw sefydliad AB sy'n darparu dysgu seiliedig ar waith hefyd;
- mae yna berygl y byddai hyn yn arwain at ganfyddiad o hierarchaeth, gyda darparwyr cofrestredig yn cael eu hystyried yn well, neu'n bwysicach, na darparwyr ardystiedig a darparwyr cydnabyddedig.

*2. Y Model Cytundeb Deilliannau*

Dewis posibl arall yw sicrhau bod y trefniadau cofrestru yn cyd-fynd â chyflwyno Cytundebau Deilliannau a'r deilliannau sy'n cael eu sicrhau gan bob darparwr dysgu. Felly, byddai'r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cael ei rheoli drwy negodi a chyflwyno Cytundebau Deilliannau. Byddai angen i bob darparwr fod â Chytundeb wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn i fod yn gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus. Byddai systemau cyllido ac atebolrwydd yn cyfateb i anghenion dysgwyr, darparwyr a chyflogwyr - ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Byddai Llywodraeth Cymru yn pennu nifer o flaenoriaethau strategol y mae'n dymuno eu gweld yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith sefydliadau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sy'n derbyn cyllid cyhoeddus. Gallai blaenoriaethau strategol gynnwys:

- cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- ehangu mynediad a chodi cyrhaeddiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
- cryfhau cysylltiadau rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a busnesau er mwyn mynd i'r afael â bylchau sgiliau;
- cynyddu capasiti a gallu ymchwil.

Byddai'r Comisiwn yn ymgysylltu â darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ynglŷn â sut y gallant gyfrannu at rai o'r blaenoriaethau hyn neu bob un ohonynt. Wedyn, byddai pob darparwr yn gweithio gyda'r Comisiwn i lunio Cytundeb Deilliannau sy'n disgrifio'r blaenoriaethau y byddai'n eu rhoi ar waith, sut y byddai'n gwneud hynny a'r targedau y byddai'n ceisio eu cyrraedd. Mae targedau perthnasol yn debygol o gynnwys:

- deilliannau ar gyfer dysgwyr;
- deilliannau ar gyfer economi a busnesau Cymru;
- deilliannau yn ymwneud ag ymgysylltiad dinesig;
- deilliannau yn ymwneud ag ymchwil, lle bo hynny'n berthnasol.

Byddai targedau'r Cytundebau Deilliannau yn cael eu negodi rhwng pob darparwr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a'r Comisiwn. Gallai hefyd fod yn fodd i sicrhau ansawdd darpariaeth, sefyllfa ariannol a llywodraethu da pob sefydliad, gan ddiogelu buddiannau dysgwyr ac arian trethdalwyr. Byddai'r ddeialog rhwng y Comisiwn a phob darparwr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wrth lunio Cytundebau Deilliannau yn seiliedig ar gymorth a her, gyda'r Comisiwn yn darparu cyngor i ddarparwyr.

Er y byddai'r agwedd hon ar gofrestru yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng darparwyr unigol a'r Comisiwn, byddai modd hyrwyddo cydweithio hefyd. Fel rhan o'r broses negodi, gallai'r Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lunio cynlluniau i gydweithio lle mae

angen trefniadau o'r fath i gyrraedd targedau addysg, sgiliau a chyflogaeth neu dargedau ymchwil.

Manteision posibl y model hwn:

- gallai'r Comisiwn fabwysiadu agwedd holistaidd at bob darparwr a'i gyfraniadau penodol. Gallai hyn helpu i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr ar adegau gwahanol o'u llwybrau dysgu, naill ai drwy gyrsiau llawn amser, cyrsiau rhan-amser neu gyrsiau dysgu yn y gymuned; a
- byddai cysylltu cofrestru â Chytundebau Deilliannau yn fodd o oruchwylio'r gwaith o reoleiddio a chyllido darparwyr newydd a darparwyr presennol, hyrwyddo cydweithredu ledled y sector a lledaenu arferion da drwy ddefnyddio un broses a dogfen.

Anfanteision posibl y model hwn:

- byddai'n canolbwyntio ar ddarparwyr unigol, gan olygu mai'r Comisiwn a fydd yn bennaf gyfrifol am nodi dyblygu a bylchau mewn darpariaeth, ac am roi atebion ar waith;
- gallai'r model hwn olygu defnyddio llawer o adnoddau gan y byddai angen i'r Comisiwn weithio'n agos gyda phob darparwr i sefydlu a monitro'r cytundebau deilliannau;
- byddai angen i'r model weithio ar sylfaen un i un, gan olygu bod angen sefydlu perthynas gadarnhaol â phob darparwr er mwyn sicrhau bod y model yn gweithredu'n effeithiol;
- gallai unrhyw fethiant o ran cysylltiadau gael effaith sylweddol ar y sector cyfan;
- gallai diffyg her ddigonol gael effaith ddifrifol ar fyfyrwyr ac ar arian trethdalwyr.

*3. Y Model Compactau Rhanbarthol*

Er y byddai'r dulliau cofrestru arfaethedig eraill yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol unigol a'r Comisiwn, byddai'r model hwn yn seiliedig ar y berthynas rhwng y Comisiwn a chlystyrau o ddarparwyr rhanbarthol. Byddai'n cyflawni ein nod o sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cydweithredu, ac yn eu hannog i gydweithio i ddiwallu anghenion dysgwyr. Byddai angen rhoi ystyriaeth i ddiffinio'r term "rhanbarth" a phenderfynu pa mor hyblyg y dylai'r diffiniad fod. Fel sy'n wir am y model blaenorol, byddai systemau cyllido ac atebolrwydd yn cael eu cysylltu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, darparwyr, a busnesau/yr economi.

Byddai Compactau Rhanbarthol yn cael eu llunio gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol mewn rhanbarth, yn dilyn trafodaethau â'r Comisiwn. Yn yr un modd â'r Cytundebau Deilliannau unigol, byddent yn cael eu datblygu mewn ymateb i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Byddai'r darparwyr yn ymrwymo i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr ar lefelau gwahanol. Byddai hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud cynnydd ar hyd y llwybrau dysgu, gan aros yn eu rhanbarth os ydynt yn dymuno. Byddai'r sefydliadau, gyda gwybodaeth a chyngor y Comisiwn, yn gyfrifol am sicrhau nad yw darpariaeth yn cael ei dyblygu ac nad oes bylchau yn y ddarpariaeth. Hefyd, byddent yn ymwybodol o'r sgiliau sydd eu hangen gan fusnesau lleol ac yn ystyried sut i'w darparu. Byddai'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rôl allweddol wrth nodi anghenion economaidd lleol a rhanbarthol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio darpariaeth a gosod targedau.

Er y byddai'r darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn gyfrifol am lunio'r compact rhanbarthol, byddent yn cael eu cynorthwyo gan y Comisiwn, a fyddai'n sicrhau bod

gwybodaeth, cyngor a her briodol ar gael. Byddai angen i'r Comisiwn gymeradwyo'r compact rhanbarthol er mwyn tynnu i lawr cyllid y llywodraeth ar gyfer y rhaglenni amrywiol. Fodd bynnag, gallai pob sefydliad fod yn gysylltiedig â mwy nag un compact.

Manteision posibl y model hwn:

- gallu'r Comisiwn i fabwysiadu agwedd holistaidd at bob darparwr a'i chyfraniadau penodol. Gallai hyn helpu i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr yn ystod camau gwahanol y llwybrau dysgu, gan sicrhau bod anghenion dysgwyr o bob math yn cael eu diwallu p'un ai a ydynt yn mynychu cyrsiau llawn amser, cyrsiau rhan-amser neu gyrsiau dysgu yn y gymuned;
- cyfleoedd i annog yr ystod lawn o ddarparwyr i gydweithio a rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr;
- cyfleoedd i gyflawni mwy drwy sicrhau bod sawl darparwr dysgu yn cydweithio tuag at nodau cyffredin yn hytrach nag yn gweithredu'n unigol;
- y gallu i rannu'r cyfrifoldeb am nodi gofynion sgiliau rhwng y Comisiwn a sefydliadau;
- hyrwyddo cydweithio ledled y sector fel dull o fynd i'r afael â natur dameidiog a chymhleth yn y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol bresennol a'r gystadleuaeth niweidiol sy'n rhan ohoni.

Anfanteision posibl y model hwn:

- perygl y gallai canolbwyntio ar gompactau rhanbarthol arwain at fethu â nodi gwendidau ariannol neu lywodraethu darparwyr unigol, gan roi dysgwyr a chyllid y llywodraeth mewn perygl;
- anawsterau o ran mynegi'r berthynas reoleiddio rhwng darparwyr a'r Comisiwn;
- y perygl y gallai darparwyr presennol weithio i rwystro dyfodiad darparwyr newydd sydd ag agweddau arloesol at ddysgu;
- y perygl y bydd darparwyr mwy o ran maint neu ddarparwyr cryfach yn dominyddu eraill yn y compact rhanbarthol, gan bennu'r mathau o gyfleoedd dysgu y dylent eu darparu. Gallai hyn leihau'r cyfleoedd ar gyfer dysgwyr.

**Cwestiynau:**

**A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn newydd weithredu system gofrestru i hwyluso dull hyblyg ond cyson o ymgysylltu â sefydliadau a darparwyr ar draws yr ystod lawn o weithgarwch addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?**

**Os felly, pa fodel, os o gwbl, sy'n well gennych, a pham?**

*Llywodraethu Addysg Uwch*

Cyn dechrau trafod trefniadau pontio, mae angen i ni ystyried ein hymateb i'r newidiadau diweddar i drefniadau llywodraethu addysg uwch yn Lloegr, er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gweithio'n iawn ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae'n hollbwysig sicrhau bod ein prifysgolion yn cael eu rheoli'n dda, nid yn unig i ddiogelu buddiannau myfyrwyr a threthdalwyr, ond i gynnal a hyrwyddo enw da addysg uwch Cymru ar lwyfan fyd-eang. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y trefniadau llywodraethu sy'n berthnasol iddynt yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Ers blynyddoedd lawer, bu agwedd gyffredin at lywodraethu addysg uwch yng Nghymru a Lloegr a oedd yn seiliedig ar fframwaith deddfwriaethol ar y cyd a bennwyd gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992. Fodd bynnag, mae'r agwedd gyffredin hon wedi dod i ben yn sgil cyflwyno Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn Lloegr, sydd wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r trefniadau deddfwriaethol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i sefydliadau addysg uwch yn Lloegr. Yn benodol, mae Deddf 2017 wedi diwygio'r trefniadau deddfwriaethol ar gyfer corfforaethau addysg uwch ac mae wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer pwerau i ddyfarnu graddau a theitl prifysgol, sy'n berthnasol i Loegr.

- Ochr yn ochr â'r diwygiadau hyn, mae Comisiwn y Gyfraith wedi ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu addysg uwch fel rhan o'i brosiect *Charity Law: Selected Issues.* Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith y papur ymgynghori *Technical Issues in Charity Law* [43] a oedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â sut mae sefydliadau addysg uwch ac elusennau yn diwygio eu dogfennau llywodraethu. Rhagwelir y bydd Comisiwn y Gyfraith yn cyhoeddi ei argymhellion terfynol yn nes ymlaen eleni.

**Cwestiynau:**

**Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar sut y gellid moderneiddio'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â chorfforaethau addysg uwch yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn gyfartal â darparwyr addysg uwch eraill, a'i hymgorffori o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:**

- **a ddylid dileu'r amodau presennol yn ymwneud â dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch;**
- **a ddylid dileu'r gofyniad ar gyfer cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor ar gyfer diwygiadau penodol i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch;**
- **a ddylid cadw neu ddileu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaethau addysg uwch.**

**Hefyd, rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a oes angen diwygio'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol i sefydliadau yng Nghymru yn sgil y broses o ddatblygu polisïau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn canolbwyntio ar y canlynol yn benodol:**

- **a ddylid cadw rôl y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â dyfarnu pwerau dyfarnu graddau ac theitl prifysgol yng Nghymru neu a ddylid trosglwyddo cyfrifoldeb am ran o'r broses neu'r broses gyfan i'r corff addysg a hyfforddiant ôl-orfodol newydd;**
- **a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau ac theitl prifysgol, gan gynnwys y gofyniad yn ymwneud â hanes;**
- **a yw'r sylfaen benagored bresennol ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau yn parhau i fod yn briodol yn sgil y newidiadau cyllido a rheoleiddio yng Nghymru;**
- **a ddylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno pwerau dyfarnu graddau mwy hyblyg yng Nghymru, fel lefel baglor yn unig neu bynciau cyfyngedig;**

[43] http://www.lawcom.gov.uk/project/charity-law-technical-issues-in-charity-law/

- **a ddylid ystyried pwerau i amrywio a dirymu pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru;**
- **a fyddai unrhyw newidiadau i bwerau dyfarnu graddau a threfniadau dilysu yn gwella effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan sefydliadau addysg bellach.**

## TREFNIADAU PONTIO – PARATOI I WEITHREDU

Os penderfynir rhoi'r diwygiadau ar waith, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau pontio effeithiol o'r trefniadau presennol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i'r system arfaethedig newydd. Rydym yn cydnabod y bydd angen cynllunio yn ofalus cyn cyflwyno system newydd er mwyn diogelu buddiannau dysgwyr ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr. Byddwn yn ystyried yr angen am gyfnod pontio er mwyn dirwyn y system reoleiddio bresennol i ben yn raddol a chyflwyno'r trefniadau newydd.

**Cwestiwn:**

**Bydd diogelu buddiannau dysgwyr ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr yn dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio. A oes angen ystyried unrhyw faterion eraill?**

**CAMAU NESAF**

Rydym wedi cyflwyno ein cynigion ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Rydym yn credu y byddant yn diwallu anghenion Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd y diwygiadau hyn yn llwyddo i gefnogi dysgwyr, busnesau na'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol os nad yw ein rhanddeiliaid wedi helpu i'w llunio. Felly, hoffem glywed gan ddysgwyr, gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad o weithio yn y sector, darparwyr addysg neu hyfforddiant, pobl fusnes, neu bobl sydd â diddordeb yn ein system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Rydym wedi cyflwyno cwestiynau yn ymwneud â phob agwedd ar ein cynigion, ac mae gennym ddiddordeb mawr yn eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau.

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn dadansoddi ac yn cyhoeddi crynodeb o'ch ymatebion. Byddwn yn eu defnyddio i lywio ymgynghoriad technegol manwl a fydd yn darparu disgrifiad llawnach o natur a gwaith y Comisiwn. Wedyn, byddwn yn ceisio datblygu cynigion deddfwriaethol cyn diwedd y Cynulliad presennol i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru. Os penderfynir sefydlu'r Comisiwn, bydd angen amser i ddatblygu cynigion deddfwriaethol, ac ar ôl llunio'r ddeddfwriaeth, i sefydlu a throsglwyddo'r swyddogaethau i'r Comisiwn newydd.

# Atodiad A

## Rhagolygon gwaith

Dyfodol Gwaith 2014-2024 (Wilson et al., 2016) yw'r chweched mewn cyfres o ragolygon degawd o hyd o farchnad lafur y DU, ac mae'n cyflwyno rhagolygon ar gyfer cynnyrch a galw a chyflenwad sgiliau rhwng 2014 a 2024. Mae'r papur hwn yn cyflwyno crynodeb o rai o'r tueddiadau a nodwyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar dueddiadau sy'n ymwneud â Chymru.

*Fel sy'n wir am bob rhagamcan a rhagolwg, dylid ystyried y canlyniadau a gyflwynir yn Nyfodol Gwaith yn ganlyniadau sy'n dangos tueddiadau a graddau tebygol ar sail patrymau ymddygiad a pherfformiad y gorffennol, ac nid fel rhagolygon manwl gywir o'r dyfodol. Er bod Dyfodol Gwaith yn cyfeirio at ei ffigurau fel 'cyflogaeth', y brif ffynhonnell ar gyfer llunio rhagolygon yw data Workforce Jobs. Mae'r data hwn yn mesur swyddi yn hytrach na phobl mewn swyddi, felly bydd y ffigurau ar gyfer 2014 yn uwch na rhagolygon cyflogaeth Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2014, gan y gall rhai unigolion fod â mwy nag un swydd.*

*Crynodeb*
Ar draws yr holl sectorau, galwedigaethau, a lefelau cymwysterau, mae Dyfodol Gwaith yn rhagweld y gallai cyflogaeth yng Nghymru gynyddu 53,600 (3.8 y cant) o 1.412 miliwn i 1.466 miliwn rhwng 2014 a 2024.

Mae rhagolygon yn awgrymu bod cynnydd parhaol mewn cymwysterau uwch a galwedigaethau mwy crefftus. Fodd bynnag, mae rhai galwedigaethau sydd angen llai o sgiliau yn cynyddu (galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid a gwasanaethau gofal personol yn benodol) a bydd angen cael gweithwyr newydd i ddisodli'r rhai sydd wedi gadael y farchnad lafur ar draws y sectorau, y galwedigaethau a'r lefelau cymwysterau.

Er bod angen trin data ar ragolygon yn ofalus, gan nodi cyfyngiadau perthnasol yn ofalus, mae llawer o'r newidiadau a ragwelir yn debygol o ddigwydd mewn ymateb i dueddiadau demograffeg hirdymor (y cynnydd mewn galwedigaethau gwasanaethau gofal personol) a newid technolegol (gostyngiad mewn galwedigaethau ysgrifenyddol a galwedigaethau cysylltiedig).

*Cymwysterau*
Mae rhagolygon cyflogaeth Dyfodol Gwaith[44] yn nodi bod y rhan fwyaf o'r galw am gyflogaeth rhwng 2014 a 2024 yn debygol o fod ar gyfer y rhai sydd â chymwysterau lefel uwch ar lefel 4 ac uwch.[45] Mae Ffigur 1 yn dangos y newidiadau sydd wedi digwydd ac sy'n debygol o ddigwydd yn ôl y rhagolygon rhwng 2004 a 2024 yng Nghymru. Rhwng 2004 a 2024, rhagwelir y bydd cyfran y rhai mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau FfCCh lefel 4-6 yn cynyddu o 22 y cant i 40 y cant. Rhagwelir y bydd cyfran y rhai mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau lefelau 7-8 yn cynyddu o 6 y cant i 11 y cant hefyd. Felly, erbyn 2024, rhagwelir y bydd dros hanner y bobl sy'n gweithio yng Nghymru yn meddu ar gymwysterau lefel 4 neu uwch, o'i gymharu â thua chwarter yn 2004.

Wrth edrych yn fanylach ar lefelau cymwysterau unigol, daw i'r amlwg mai FfCCh 6 sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd a ragwelir yn FfCCh lefel 4-6 rhwng 2014 a 2024. Ychydig iawn o newid sy'n cael ei ragweld ar gyfer FfCCh lefel 5, er bod disgwyl cynnydd ar gyfer

[44] Dyfodol Gwaith 2014-24, UKCES, 2016

FfCCh lefel 4. Rhagwelir cynnydd mawr ar gyfer FfCCh lefel 7, a rhagwelir y bydd nifer y rhai â chymhwyster FfCCh lefel 8 yn cynyddu rhwng 2014 a 2024.

Er y rhagwelir y bydd cyfran y rhai mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau lefel uwch yn cynyddu, mae'r gwrthwyneb yn wir am y rhai nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau. Roedd 13 y cant o'r rhai mewn cyflogaeth yng Nghymru yn 2004 heb unrhyw gymwysterau, a rhagwelir y bydd y ganran hon yn disgyn i 2 y cant yn unig yn 2024. Yn yr un modd, rhagwelir y bydd cyfran y rhai mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau lefel 1 yn disgyn o 18 y cant i 9 y cant. Rhagwelir y bydd cyfran y rhai mewn cyflogaeth â chymwysterau lefel 2 yn gostwng ychydig, tra y bydd ychydig iawn o newid yn y gyfran sydd â chymwysterau lefel 3.

*Galwedigaethau*

Mae effaith debyg yn amlwg o safbwynt galwedigaethau (Ffigur 2). Rhagwelir y bydd cynnydd mawr seiliedig ar dwf rhwng 2014 a 2024 mewn galwedigaethau sgiliau uwch ym meysydd gwaith rheoli, proffesiynol a phroffesiynol a thechnegol cysylltiedig. O'r grwpiau hyn, rhagwelir mai dim ond y galwedigaethau gwasanaethau diogelu a fydd yn gostwng. Mae'n debygol y bydd y grwpiau galwedigaethol hyn yn gofyn am gymwysterau lefel uwch. Mae'r cynnydd yn y tri grŵp galwedigaethol hyn (SOC 2010 Prif grwpiau 1-3) yn parhau â thueddiadau mwy hirdymor, a rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am 40.5 y cant o gyflogaeth yng Nghymru yn 2024 o'i gymharu â 30.1 y cant ym 1994.

Yn ogystal â galwedigaethau sgiliau uwch, rhagwelir cynnydd mawr mewn cyflogaeth mewn galwedigaethau gwasanaethau gofal personol. Mae hyn yn adlewyrchu'r materion demograffig sy'n wynebu Cymru a'r DU, ac mae'n dilyn twf cryf yn yr alwedigaeth rhwng 2004 a 2014 (o 97,800 yn 2004 i 123,300 yn 2014, nes cyrraedd 138,200 erbyn 2024 yn ôl y rhagolygon).

Rhagwelir mai galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid a fydd yn gweld y cynnydd mwyaf o ran canran o blith yr holl alwedigaethau - cynnydd o 20.5 y cant rhwng 2014 a 2024, o 24,400 i 29,400.

O safbwynt galwedigaethau lefel sgiliau canolig, rhagwelir y bydd y sector ysgrifenyddol a galwedigaethau cysylltiedig yn gostwng yn sylweddol i 30.9 y cant (gostyngiad net o 10,800). Hefyd, rhagwelir y bydd crefftau amaethyddol medrus a chrefftau cysylltiedig yn gostwng 12.7 y cant, crefftau medrus gwaith metel, trydanol ac electronig yn gostwng 8.9 y cant, a chrefftau tecstilau, argraffu a chrefftau medrus eraill yn gostwng 8.4 y cant. Rhagwelir y bydd swyddi'n cael eu colli mewn galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol ehangach, a galwedigaethau crefftau medrus (SOC 2010 Prif grwpiau 4 a 5) hyd at 2024.

Mae rhagolygon twf yn gymysg ar gyfer galwedigaethau sgiliau is. Fel y nodwyd uchod, rhagwelir lefelau twf uchel ar gyfer galwedigaethau gofal personol a galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid. Fodd bynnag, rhagwelir gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n gweithio mewn galwedigaethau gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau, a swyddi gwerthu.

*Sectorau*

Rhagwelir y bydd cyflogaeth yn y sector masnach cyfanwerthu a manwerthu yn cynyddu 19,700 rhwng 2014 a 2024, ac mai hwn fydd y sector mwyaf yn 2024. Hwn oedd y sector mwyaf ond un yn 2014, yn ail yn unig i'r sector iechyd a gwaith cymdeithasol. Rhagwelir y bydd y sector hwn yn cynyddu rhwng 2014 a 2024, ond nid i'r un graddau (7,100). Ar sail gyfran, rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf yn digwydd yn y sectorau cyllid ac yswiriant (17.9

y cant), dŵr a charthffosiaeth (16.5 y cant) a gwasanaethau proffesiynol (13.2 y cant). Fodd bynnag, mae twf cyfunol y sectorau hyn (16,200) yn parhau i fod yn llai na'r twf a ragwelir ar gyfer masnach cyfanwerthu a manwerthu oherwydd y ffaith eu bod yn gymharol lai o ran maint.


Rhagwelir gostyngiad mewn cyflogaeth mewn nifer o sectorau, gan gynnwys amaethyddiaeth (-10,700), swyddi cynhyrchu eraill (-10,000), a pheirianneg (-5,100). Oherwydd yr angen i ddisodli gweithwyr sydd wedi gadael y farchnad lafur, bydd galw sylweddol o hyd gan y sectorau hyn rhwng 2014 a 2024.

*Y Galw am Weithwyr Newydd*

Ar draws yr holl sectorau, galwedigaethau a lefelau cymwysterau, mae Dyfodol Gwaith yn rhagweld y gallai cyflogaeth yng Nghymru gynyddu 53,600 (3.8 y cant), o 1.412 miliwn i 1.466 miliwn, rhwng 2014 a 2024. Fodd bynnag, yn ogystal â'r cynnydd yn nifer y bobl mewn cyflogaeth, mae angen disodli gweithwyr sydd wedi gadael y farchnad lafur am resymau gwahanol. Cyfeirir at hyn fel y galw am weithwyr newydd. Mae'r galw am weithwyr newydd yn llawer mwy na'r newid net mewn cyflogaeth (galw oherwydd ehangu). Mae angen 553,400 o weithwyr newydd ar hyn o bryd, a bydd gofyniad net o 607,000 rhwng 2014 a 2024. Mae modd gweld hyn ar sail flynyddol yn unig rhwng 2014 a 2024 yn Ffigur 3.

O ganlyniad, hyd yn oed ar gyfer sectorau, galwedigaethau a lefelau cymwysterau lle y rhagwelir y bydd nifer y rhai sy'n cael eu cyflogi yn disgyn, bydd angen pobl newydd i ddisodli'r rhai sy'n gadael y farchnad lafur.


**Ffigur 1: Rhagolygon cyfran cyflogaeth yng Nghymru yn ôl lefel cymhwyster, 2004-2024**




*Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024*

FfCCh 7-8
FfCCh 4-6
FfCCh 3
FfCCh 2
FfCCh 1
Dim Cymwysterau

**Ffigur 2: Rhagolygon cyfran cyflogaeth yng Nghymru yn ôl galwedigaeth, 2014-2024**




*Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024*

11 o Reolwyr a chyfarwyddwyr corfforaethol
12 o Reolwyr a pherchnogion eraill

21 o Weithwyr gwyddoniaeth, ymchwil, peirianneg a thechnoleg proffesiynol

22 o Weithwyr iechyd proffesiynol

23 o Weithwyr addysgu ac addysgol proffesiynol
24 o Weithwyr busnes, y cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus
31 o Weithwyr gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg proffesiynol cysylltiedig
32 o Weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol cysylltiedig
33 o Alwedigaethau gwasanaethau diogelu


34 o Alwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon
35 o Weithwyr busnes a gwasanaethau cyhoeddus proffesiynol cysylltiedig
41 o Alwedigaethau gweinyddol

42 o Alwedigaethau ysgrifenyddol a galwedigaethau cysylltiedig
51 o Grefftau amaethyddol medrus a chrefftau cysylltiedig
52 o Grefftau metel, trydanol ac electronig medrus
53 o Grefftau adeiladwaith ac adeiladu medrus
54 o Grefftau tecstilau ac argraffu medrus a chrefftau medrus eraill
61 o Alwedigaethau gwasanaethau gofal personol
62 o Alwedigaethau hamdden, teithio a galwedigaethau gwasanaethau personol cysylltiedig
71 o Alwedigaethau gwerthu

72 o Alwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid

81 o Weithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau
82 o Yrwyr a gweithredwyr trafnidiaeth a pheiriannau symudol
91 o Grefftau elfennol a galwedigaethau cysylltiedig
92 o Alwedigaethau gweinyddol a gwasanaeth elfennol

**Ffigur 3: Rhagolwg fesul blwyddyn o'r galw yn sgil ehangu, y galw am weithwyr newydd a'r cyfanswm gofyniad (net) yng Nghymru, 2014-2024**




*Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024*

Expansion demand – Galw yn sgil ehangu
Replacement demand – Galw am weithwyr newydd
Net requirement – Gofyniad net

**Atodiad B**

**Eglurhad cryno o swyddogaethau rheoleiddwyr a sefydliadau cyfryngol presennol ar gyfer y Papur Gwyn.**

Cadeiryddion Prifysgolion Cymru

Cadeiryddion Prifysgolion Cymru yw corff cynrychioladol cadeiryddion cyrff llywodraethu prifysgolion yng Nghymru. Mae'n ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac yn cydweithio'n agos â Phrifysgolion Cymru.

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Mae Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr yn rheoleiddio gwaith gweinyddol a materion elusennau cofrestredig y DU. Mae gan bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru statws elusennol.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn darparu goruchwyliaeth annibynnol, cyfeiriad strategol a chefnogaeth i ddatblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.

Colegau Cymru / Colleges Wales

Elusen a chwmni cyfyngedig trwy warant yw ColegauCymru sy'n codi proffil addysg bellach gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol er mwyn gwella cyfleoedd addysgol yng Nghymru. Caiff ei arwain gan ei aelodau, sef pob un o'r 14 o golegau/sefydliadau addysg bellach Cymru.

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

Adran annibynnol, anweinidogol yw'r CMA. Mae cyfrifoldebau'r Awdurdod yn cynnwys cyflwyno deddfwriaeth diogelu'r defnyddiwr er mwyn mynd i'r afael ag arferion ac amodau'r farchnad sy'n ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr arfer dewis, ac ymchwilio i achosion posibl o ymddwyn yn groes i waharddiadau'r DU neu'r UE ar gytundebau gwrth-gystadleuol a manteisio'n annheg ar sefyllfaoedd cryf.

Estyn

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n Gorff annibynnol a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol mewn colegau AB a lleoliadau cysylltiedig, ac am arolygu ansawdd hyfforddiant ac addysg gychwynnol i athrawon yn y sector addysg uwch.

Yr Academi Addysg Uwch (HEA)

Mae'r Academi Addysg Uwch (HEA) yn gorff cenedlaethol, annibynnol, elusennol sy'n hyrwyddo rhagoriaeth ym maes addysgu. Yng Nghymru, mae'r HEA yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch a chyrff allweddol yn y sector i helpu i ddatblygu polisi a gwella arferion dysgu ac addysgu mewn addysg uwch.

Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn casglu, yn dadansoddi ac yn adrodd ar ystadegau AU ar gyfer prifysgolion a cholegau yn y DU.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch1992. CCAUC yw'r corff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae'n dosbarthu cyllid ar gyfer addysg uwch ac ymchwil ac yn rheoleiddio lefelau ffioedd, ansawdd a rheoli ariannol prifysgolion.

Y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch

Mae'r Sefydliad Arweinyddiaeth yn darparu gwasanaeth cymorth a chyngor penodol yn ymwneud ag arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli ar gyfer pob un o sefydliadau addysg uwch y DU.

Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)

Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) yn gorff cynrychioladol ar gyfer darparwyr hyfforddiant a dysgwyr. Mae'r NTfW yn cael ei arwain gan Fwrdd Cenedlaethol etholedig sy'n cael ei ddewis gan sefydliadau sy'n aelodau, ac maen nhw'n derbyn cymorth gan strwythur o Fyrddau Rhanbarthol yn ardal y De, y De-ddwyrain, y Canolbarth/Gorllewin, a'r Gogledd.

UCM Cymru

Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr (UCM) Cymru yw'r sefydliad democrataidd mwyaf yng Nghymru. Mae'n cynrychioli dros chwarter miliwn o fyfyrwyr yn y sector Addysg Uwch a'r sector Addysg Bellach, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth ag undebau myfyrwyr yng Nghymru.

Y Swyddfa Mynediad Teg (OFFA)

Y Swyddfa Mynediad Teg yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer mynediad teg i addysg uwch *yn Lloegr*. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd yn 2004 i hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA)

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) yn gorff annibynnol a sefydlwyd i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae gwasanaeth y Swyddfa ar gael am ddim, ac mae'n ymdrin â chwynion unigol yn erbyn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr.

Y Cyfrin Gyngor

Mae'r Cyfrin Gyngor yn gorff cynghori ffurfiol i Frenin/Brenhines y DU. Mae'r rhan fwyaf o'i aelodau'n unigolion profiadol sy'n aelodau neu'n gyn aelodau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r Cyfrin Gyngor yn gyfrifol am benderfyniadau i roi pwerau i ddyfarnu graddau a theitl prifysgol, ar sail cyngor Llywodraeth Cymru.

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA)

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) yn monitro ac yn cynghori ar safonau ac ansawdd addysg uwch yn y DU. Mae'n gorff annibynnol sy'n cael ei gyllido gan danysgrifiadau prifysgolion a cholegau a thrwy gontractau â chyrff cyllido addysg uwch yn y DU. Mae gwaith yr asiantaeth yn cynnwys cynnal Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU a chynnal adolygiadau allanol o ddarparwyr addysg uwch. Hefyd, mae'r QAA yn cynghori'r llywodraeth ar geisiadau am bwerau i ddyfarnu graddau a theitl prifysgol yn y DU.

Cymwysterau Cymru

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru yn 2015 fel sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol (nad ydynt yn raddau) yng Nghymru. Mae'n cydnabod cyrff dyfarnu, yn gwirio cymwysterau ac yn monitro eu gweithgareddau i sicrhau eu bod yn gweithredu'n deg ac yn gyson a'u bod yn dilyn rheoliadau.

Cynghorau Sgiliau Sector (SSCs)

Mae Cynghorau Sgiliau Sector (SSCs) yn sefydliadau sgiliau sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr ac yn gweithio gyda chyflogwyr i ddiffinio anghenion sgiliau a safonau sgiliau yn eu diwydiant. Sgiliau a Safonau Sector y Ffederasiwn Diwydiant yw'r llais cyfunol, ac mae'n cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r 16 SSC a'r 5 Corff Sgiliau Sector.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sefydliad nad yw'n gwneud elw sy'n eiddo i'r llywodraeth, ac fe'i sefydlwyd ym 1989 i ddosbarthu benthyciadau a grantiau i brifysgolion a cholegau yn y DU.

Y Gwasanaeth Derbyniadau i Brifysgolion a Cholegau (UCAS)

Mae'r Gwasanaeth Derbyniadau i Brifysgolion a Cholegau (UCAS) yn elusen annibynnol sy'n cael ei reoli gan Fwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys arweinwyr darparwyr addysg uwch neu addysg bellach. Mae UCAS yn darparu gwybodaeth a chyngor i ddarpar fyfyrwyr a gwasanaethau yn ymwneud â cheisiadau ar gyfer darparwyr addysg uwch yn y DU.

Unistats

Unistats yw'r wefan swyddogol ar gyfer cymharu data cyrsiau addysg uwch yn y DU, gan gynnwys data ar bob cwrs a sgoriau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol.

Prifysgolion Cymru

Mae Prifysgolion Cymru yn cynrychioli buddiannau cyfunol prifysgolion Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol, Senedd y DU, pleidiau gwleidyddol, a sefydliadau a chyrff Ewropeaidd. Mae Prifysgolion Cymru yn gyngor cenedlaethol Prifysgolion y DU ac mae holl brifysgolion Cymru yn aelodau o'r corff.

Comisiynydd y Gymraeg

Swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg yw hybu'r Gymraeg a gwella cyfleoedd pobl i'w defnyddio drwy bwysleisio statws swyddogol yr iaith yng Nghymru a phennu safonau ar gyfer sefydliadau.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant ôl-orfodol

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Llywodraeth Cymru

E-bost: DiwygioPCET@wales.gsi.gov.uk

Eich cyfeiriad: Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ

*Cynllunio Strategol*

**Cwestiwn 1:**
Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gyfrannu at waith cynllunio strategol ar lefel genedlaethol ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

**Cwestiwn 2:**
A ddylai Cytundebau Deilliannau fod yn sylfaen i berthynas cynllunio strategol y Comisiwn â sefydliadau a darparwyr? Os felly, pa gamau y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw Cytundebau Deilliannau yn hyrwyddo meddylfryd tymor byr ymysg sefydliadau?

*Un Sefydliad Cyllido*

**Cwestiwn 3:**
Ydych chi'n cytuno y dylai cyllid ar gyfer y Comisiwn ddibynnu ar lunio cynllun strategol wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru?

**Cwestiwn 4:**
Ydych chi'n cytuno y dylai cymhwysedd darparwr ar gyfer cyllid ddibynnu ar lunio Cytundeb Deilliannau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol yn y Cynllun Strategol?

**Cwestiwn 5:**
Ydych chi'n cytuno y dylai lefelau cyllid ddibynnu, mewn unrhyw ffordd, ar berfformiad darparwr yn erbyn ei Gytundeb Deilliannau?

**Cwestiwn 6:**
Ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion i'r sefydliad a/neu Lywodraeth Cymru, os yw sefydliad mewn perygl ariannol difrifol?

**Cwestiwn 7:**
Os yw'r Comisiwn yn credu nad yw sefydliad yn hyfyw yn ariannol bellach, ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion priodol i Lywodraeth Cymru?
Pa fesurau diogelu y bydd eu hangen o bosibl?

*Diogelu buddiannau dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol*

**Cwestiwn 8:**
Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru?

**Cwestiwn 9:**
Os ydych chi, pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr na allant barhau i astudio eu cwrs gyda'r darparwr o'u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws yn cau neu oherwydd methiant darparwr?

**Cwestiwn 10:**
A ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru gynnwys cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu Cytundebau Deilliannau?

*Cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr*

**Cwestiwn 11:**
Pa gymorth sydd angen ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr?

**Cwestiwn 12:**
Pa rôl, os o gwbl, y dylai'r Comisiwn newydd ei chael o ran sicrhau bod trefniadau ar waith i hwyluso trefniadau trosglwyddo myfyrwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn ymysg dysgwyr?

*Rheoli Cwynion Dysgwyr*

**Cwestiwn 13:**
A oes angen cyflwyno trefniadau datrys cwynion ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol nad ydynt yn gallu gwneud cwyn i gorff annibynnol ar hyn o bryd?

Os felly, pa drefniadau datrys cwynion sydd angen eu rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

*Sicrhau a Gwella Ansawdd*

**Cwestiwn 14:**
Pa fodelau y gallai'r Comisiwn eu defnyddio i greu Fframwaith Sicrhau Ansawdd sy'n cwmpasu darpariaeth o bob math?

**Cwestiwn 15:**
A ddylai gwella ansawdd fod yn nodwedd allweddol o Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Comisiwn?

*Sicrwydd Ariannol a Llywodraethu*

**Cwestiwn 16:**
Rydym yn croesawu safbwyntiau ar rôl y Comisiwn yn y dyfodol yn ymwneud â phrentisiaethau yng Nghymru. Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ar ba newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r system brentisiaethau yng Nghymru y mae Deddf 2009 yn darparu ar ei chyfer.

*Rheoli Perfformiad a Risg*

**Cwestiwn 17:**
Ydych chi'n credu bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ddigonol ac yn briodol?

**Cwestiwn 18:**
Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

*Ymchwil ac Arloesi*

**Cwestiwn 19:**
Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu pwyllgor o'r Comisiwn â'r teitl Ymchwil ac Arloesi Cymru?

**Cwestiwn 20:**
Ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru weithredu yn unol â'r hyn a nodir uchod er mwyn datblygu capasiti a gallu ymchwil ac arloesi yng Nghymru?

*Ehangu mynediad a chyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol*

**Cwestiwn 21:**
Pa gamau, os o gwbl, sydd angen eu cymryd i hyrwyddo rhagor o gyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn enwedig ymysg unigolion o grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

**Cwestiwn 22:**
Sut y gallwn sicrhau bod mwy o fyfyrwyr sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn aros ar gyrsiau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac yn eu cwblhau?

*Mesur effaith*

**Cwestiwn 23:**

Sut y gellir cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ehangu mynediad ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

**Cwestiwn 24:**
A ddylid gosod dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i gyhoeddi data ar gyfraddau ymgeisio, derbyn a chynnydd myfyrwyr ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol, a chyflwyno'r data i'r Comisiwn?

*Lleoliadau chweched dosbarth*

**Cwestiwn 25:**
A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a monitro darpariaeth chweched dosbarth? Os felly, beth yw'ch rhesymau?

**Cwestiwn 26:**
A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn gyflawni unrhyw swyddogaeth arall mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft, cofrestru darparwyr, sicrhau a gwella ansawdd, a llywodraethu? Os felly, nodwch eich rhesymau.

**Cwestiwn 27:**
A ydych chi'n credu y byddai'n well sefydlu'r Comisiwn heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn ei gylch gwaith, gyda'r opsiwn o wneud hynny yn ddiweddarach?

*Rheoli'r berthynas Rhwng y comisiwn a darparwyr*

**Cwestiwn 28:**
A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn newydd weithredu system gofrestru i hwyluso dull hyblyg ond cyson o ymgysylltu â sefydliadau a darparwyr ledled yr ystod lawn o weithgarwch addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Os felly, pa fodel, os o gwbl, sy'n well gennych chi, a pham?

*Llywodraethu Addysg Uwch*

**Cwestiwn 29:**
Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar sut y gellid moderneiddio'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â chorfforaethau addysg uwch yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn gyfartal â darparwyr addysg uwch eraill, a'i hymgorffori o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- a ddylid dileu'r amodau presennol yn ymwneud â dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch;
- a ddylid dileu'r gofyniad ar gyfer cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor ar gyfer diwygiadau penodol i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch;
- a ddylid cadw neu ddileu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaethau addysg uwch.

**Cwestiwn 30:**
Hefyd, rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a oes angen diwygio'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol i sefydliadau yng Nghymru yn sgil y broses o ddatblygu polisïau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn canolbwyntio ar y canlynol yn benodol:

- a ddylid cadw rôl y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru neu a ddylid trosglwyddo cyfrifoldeb am ran o'r broses neu'r broses gyfan i'r corff addysg a hyfforddiant ôl-orfodol newydd;
- a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol, gan gynnwys y gofyniad yn ymwneud â hanes;
- a yw'r sylfaen benagored bresennol ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau yn parhau i fod yn briodol yn sgil y newidiadau cyllido a rheoleiddio yng Nghymru;
- a ddylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno pwerau dyfarnu graddau mwy hyblyg yng Nghymru, fel lefel baglor yn unig neu bynciau cyfyngedig;
- a ddylid ystyried pwerau i amrywio a dirymu pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru;
- a fyddai unrhyw newidiadau i bwerau dyfarnu graddau a threfniadau dilysu yn gwella effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan sefydliadau addysg bellach.

*Trefniadau pontio – Paratoi i weithredu*

**Cwestiwn 31:**
Bydd diogelu buddiannau dysgwyr ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr yn dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio. A oes angen ystyried unrhyw faterion eraill?

**Cwestiwn 32:**
Er mwyn helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld unrhyw effaith benodol ar y rhai â nodweddion gwarchodedig (yn unol ag ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallent gael eu heffeithio'n benodol gan y cynigion hyn?
Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 33:**
Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:
i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 34:**

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi’n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

i) cael effeithiau positif neu gael effeithau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg;a
ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Cwestiwn 35**:
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

☐